Mrs Thomas.
Capel Dewi Shop

YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

RHAGFYR, 1871.

DYDD GENEDIGAETH CRIST. PREGETH.

Ysgrythyrau i'w darllen :—Esaiah ix. 1—5 ; Luc ii. 1—14.

"*Canys ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd.*"—Luc ii. 11.

Yn ystod ein bywyd mae gan bawb o honom ryw ddydd dedwydd neu annedwydd, ar yr hwn y cymer ein bywyd ato ryw fudd adnerthol, ac yr addefwn o'n gwirfodd—Gwaith Duw yw hyn. Dyma nodau rheolaeth llaw guddiedig gallu goruwch. Mae hyd yn nod yr amhëus, yr anffyddiwr, a'r gwawdiwr, yn brofiadol o ryw ddydd neu gilydd nad all anghofio yn llwybr bywyd, ac am yr hwn y mae cof yn dwyn ystyriaeth ddwys i'r meddwl.

Mae hefyd gan genhedloedd, fel unigolion, ddyddiau coffadwriaethol o'r fath. Mae un dydd yn neillduol yn yr hwn y teimla pawb trigolion cred y dyddordeb mwyaf. Pwy ddydd yw hwnw ?

Nid oes braidd eisiau dyweyd mai y dydd coffadwriaethol hwnw yw dydd genedigaeth Iesu Grist. Dydd ydyw a dreulir genyf fi yn wastadol gyd â rhyw deimlad dwys—teimlad nad allaf ddesgrifio. Paham ? Am ei fod yn ddydd ag sydd yn ddechreuad byd adnewyddol—rhyw gyfnewidiad aruthrol yn sefyllfa holl dylwythau y ddaear—cyfnewidiad sylfaenol yn nghystlynedd moesol yr hil ddynol.

A pha fodd ? Plentyn, cadair yr hwn oedd preseb camelod, a anwyd ar y dydd hwn o rieni gwladaidd, yn perthyn i bobl ddarostyngedig, ddirmygedig, ac anoleuedig. Y plentyn hwn oedd efe, yr hwn wedi hyny, heb gynorthwy arfau, a siglodd sylfaeni teyrnasoedd cedyrn—a'u

siglodd hwynt, a'u dattododd hwynt, ac a'u ffurfiodd hwynt o'r newydd. Efe a ddofodd genhedloedd yn rhanau pellaf y ddaear, a ddynoleiddiodd bobloedd anwaraidd, a oleuodd feddyliau dynion â doethineb na lefarwyd erioed o'r blaen gan athron na prophwyd, a'u cyssylltodd hwynt â'r Creawdwr mewn modd anadnabyddus i'r doethaf cyn ei ddydd, ac a wnaeth, trwy y gwirionedd a ddysgodd, fywyd yn ddedwydd, a marwolaeth yn heddychlawn.

Ai nid gwaith Duw oedd hyn? Os nage, y'mha le yn holl hanesiaeth ddynol mae i mi ganfod y llaw ddwyfol?

Llygad Duw a ddetholodd ronyn o ddwst y'mhlith deng mil o fydoedd. Llygad Duw ddetholodd seren fechan. Cafodd yr enw *daear*. Y bellen hon a boblogwyd gan Dduw â bodau wedi eu creu ar ei lun a'i ddelw ei hun. Daeth yr amser pryd y dechreuasant ddyrchafu eu hysbrydoedd dwyfol-gynysgaeddawl at yr Ysbryd Anfeidrol, eu dechreuad a'u diwedd. Yn niwlaidd canfyddent ei fodolaeth. Yn wanaidd y ceisient ef yn rhyfeddodau y greadigaeth. Yn dywyll y darlunient ef â delwau, yr addolent ef â lluniau o waith eu dwylaw eu hunain, ac y syrthient i lawr o flaen y creadur yn lle y Creawdwr.

Yna Duw yn ei fawr gariad a ddatguddiodd ei hun i ddynion trwy gyfrwng un o'u hiliogaeth eu hunain. Clywid o enau dynol eiriau tragwyddol allu, doethineb, a chariad (Ioan i.). Y teulu dynol a gawsant ddatguddiad goruchel o ardaloedd dwyfol oleuni, a dechreuodd cyfnewidiadau rhyfeddol gymeryd lle.

Fel canlyniad traethodd cenhadon cyntaf yr Iesu fod Duw wedi ymddangos yn y cnawd, hyny yw, yn y natur ddynol (1 Tim. iii. 16). Nid yn ammhriodol ei galwasant yn ddirgelwch. Oblegid ychydig oeddynt yn amgyffred meddwl y dywediad, am hyny deonglid ef mewn amrywiol ffyrdd. Er hyny, ynddo y traethir y gwirioneddau dwysaf a mwyaf goruchel yn y modd symlaf. Hyny ydyw—Mae Duw yn egluro ei hun i'r byd yn y natur ddynol.

Yr oeddynt wedi cael eu hargyhoeddi o'r ffaith, er nad oeddynt eto wedi canfod y gweithrediadau rhyfeddol a gymerent le dros yr holl ddaear trwy y gair dwyfol a draethwyd trwy enau yr Iesu. "Nef a daear a ant heibio, ond fy ngeiriau i nid ant heibio ddim." Pa mor lleied ar y cyntaf oedd nifer y credinwyr! Dau neu dri yn unig o filiwnau na wyddent ddim am yr Iesu na'i athrawiaeth.

Pe dychwelai yn awr yn ol i'r byd, wedi yn agos i ddwy fil o flynyddau, naill ai Paul, neu Petr, neu Ioan, neu eraill o ddysgyblion cyntaf yr Iesu, y fath gyfnewidiadau ganfyddent—cyfnewidiadau a effeithiwyd trwy rym y datguddiadau a wnaethpwyd iddynt gan eu Hathraw bendigedig. Gwelent yn awr wedi eu cyflawni bethau a ragfynegodd. Mewn parthau o'r ddaear na wyddent hwy ddim am danynt, clywent dafodau plant bychain yn bloesg-siarad gwirioneddau goruchel, y rhai y pryd hwnw ni allasai y doethaf draethu. Clywent fod ymerawdwyr a brenhinoedd yn disgyn oddiar eu gorseddau i ddangos anrhydedd i'r Iesu, yr hwn, y pryd hwnw, a wrthwynebid ac a erlidid gan yr iselaf o ddynion. Ailadroddent gyda'r sicrwydd mwyaf eiriau a lefarwyd yn hyderus gan yr Athraw ddeunaw cant o flynyddau yn ol. Pwy allai feddwl i hyn oll gymeryd lle trwy gyfryngwriaeth

dyn? Duw yw yr hwn sydd wedi gwneuthur ei hun yn adnabyddus i'r byd trwy fod dynol. Nis gallasai un pwer daearol gyflawni y fath gyfnewidiadau annrhaethol—nid dim llai na'r gallu dwyfol yn unig. Daearol yw pob peth sydd o'r ddaear. Gair Duw ydoedd, a gwaith Duw yn Nghrist Iesu.

Am hyny y mae yn ysgrifenedig, "Ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol" (1 Col. ii. 9), oblegid trwyddo ef y datguddiodd y Tad ei hun i breswylwyr daear, ac y mae efe, mewn canlyniad, yn Fab Duw. A'r hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd. Efe a ddaeth. Mae wedi profi ei hun yn hyfforddwr crefyddol ysbrydoedd blaenaf ein byd, a hyfforddwr pawb cenhedloedd i dd'od. Mae y prawf i'w gael yn wir gyflawniad ei ragddywediadau. Mae y prawf yn cael ei roddi gan natur mewnol holl ddynolryw. Mae y prawf yn eglur yn y ffaith na ddarfu i neb, dros gymmaint o ganrifoedd, faint bynag ei gyrhaeddiadau, faint bynag ei graffder, ddatguddio gwallau yn ngwersi mawr ysbrydol yr Iesu. Mae y prawf hefyd yn cael ei roddi yn y ffaith arall hono, sef na ddysgodd neb eto rhagorach athrawiaeth—un yn fwy mewn undeb â natur a rheswm, un yn meddu priodoleddau uwch, nac addasach i fendithio teuluoedd, cenhedlau, dynolryw, a'u perffeithio yn nerthoedd bywiol eu nhatur.

Am hyny athrawiaeth Duw ydyw ei air. Trwyddo mae Duw yn llefaru wrth ddynion. Yn gydwybodol o hyn dywedodd yr Iesu, "Canys myfi ni leferais o honof fy hun, ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddodd orchymyn i mi, beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn (Ioan xii. 49).

Efe a ddaeth. Efe a eglurodd i ddynion y gwir Dduw yr hwn oeddynt wedi diarddel ys cyd. Efe a'u dysgodd i gydnabod yn y Creawdwr eu Tad Nefol, ac i'w garu. Efe a ddatguddiodd iddynt Ragluniaeth gyffredinol a neillduol, yn gweithredu yn y pethau distadlaf, fel yn y dygwyddiadau mwyaf rhyfeddol. Efe a eglurodd iddynt wirioneddau goruchel a ganfyddid yn niwlaidd gan reswm—sef i fod dyn yn fod anfarwol, ac nad yw y cyfnewidiadau a wneir gan angeu yn gosod terfyn ar ei fywyd. Efe a eglurodd iddynt pa fodd y mae at-daliad *(retribution)* yn rheoli trefn dragwyddol y bydysawd; a'r modd y mae teilyngdod neu annheilyngdod i dderbyn anocheladwy ddedfryd.

Doethion lawer yn wir a draethent wirioneddau ardderchog cyn i'r Iesu gael ei eni; ond gwadent yn eu buchedd yr hyn a ddysgent â'u geneuau. Llefarent yn hyawdl yn erbyn dylanwad a grym y nwydau, ac a arganmolent ymdrechiadau difrifol am oruchafiaeth ysbrydol a hunan-reolaeth; ond gwelid hwy yn fynych yn gaethion i'w pleserau, ac yn ysglyfaeth i'w pechod. Clywid hwy yn datgan dirmyg at gyfoeth ac anrhydedd, fel teganau a choeg-bethau; ond er hyny cydfradent am ragoriaeth a phoblogrwydd, gan aberthu egwyddor a dyledswydd am bethau a gyfrifent yn hapusrwydd ac esmwythfyd.

Nid felly y gwnaeth yr Iesu, yr un dwyfol. Y gwirioneddau goruchel a argymellai ar eraill a eglurai yn ei fywyd ac yn ei berson ei hun. Bywyd Duw yn enaid dyn oedd ei brif ymdrech parhaus, a phrif nodau ei ymarweddiad. Esmwythder a byd helaethwych oeddynt

isel bethau. Ar yr hyn sydd yn hanfodol a thragwyddol y cadwai ei olygon. Bu fyw a marw nid yn gymmaint drosto ei hunan, â thros eraill. Ni theimlai yn ddwys dros ychydig o gyfeillion yn unig, ond dros ddynoliaeth yn gyffredinol. Rhoddai ei holl fywyd yn aberth dros bawb. Dros ddynolryw y bu farw, ac yr oedd ei angeu yn brynedigaeth y byd.

Yn gymmaint ag iddo yn ei angeu farw dros bawb, felly mewn ymadrodd Iuddewig, gelwir yr Iesu yn yr Ysgrythyrau yn *Archoffeiriad*, am fod yr archoffeiriad dan y gyfraith yn offrymu dros y bobl yn ol ei swydd fel Cyfryngwr rhwng Jehovah a'r bobl etholedig. Efe yn unig elai i mewn i'r Sanctaiddle Sancteiddiolaf i ymddangos ger bron Duw. Pan fyddai y bobl wedi troseddu yn erbyn cyfraith Moses, swydd yr offeiriad oedd anrhegu eu hoffrymau hedd fel arwydd o'u hedifeirwch, er mwyn adenill ffafr Jehovah—yr hwn a ystyrid yn fod eiddigus a dialgar. Addas, gan hyny, oedd yr enw archoffeiriad a roddwyd gan yr Apostolion i'r Iachawdwr fel y mynegent mewn modd derbyniol i'r Iuddewon ei nodweddiad a'i deilyngdod. Ond yr oedd yr Iesu yn archoffeiriad mewn ystyr rhagorach o'r gair. Fel un yn cyflawni gal-wedigaeth ysbrydol, ac un yn aberthu ei hun dros y bobl, yr oedd yn archoffeiriad mewn ystyr foesol. Efe yn unig oedd wir archoffeiriad Duw, yr hwn trwyddo a eglurwyd i'r byd, ac ynddo sydd yn dal per-thynas gyfeillachol, nid yn unig âg un genedl, ond â holl ddynolryw. Am hyny mae ei archoffeiriadaeth yn anghydmarol mwy pwysfawr. Ei offrymau ef, nid gwaed bustych a hyrddod ydynt, ond gweithred-oedd o hunan-ymwadiad, trugaredd, a thosturi (Matt. ix. 13 ; xii. 7 ; Heb. x. 5.....). Dyma oedd natur yr aberth a offrymodd pan yn rhoddi ei fywyd yn bridwerth dros bawb.

Yn y dull hwn y sefydlodd ar y ddaear deyrnās yn yr hon y mae efe ei hun yn cael yn gyfiawn ei anrhydeddu fel brenin—teyrnas nad yw o'r byd hwn, ond un yn cynwys y nefoedd yn gystal â'r ddaear, tra-gwyddoldeb yn gystal ag amser—teyrnas yn enaid dyn, sef cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn nghymundeb ysbryd sanctaidd Duw.

Y cyfreithiau a roddodd i ddeiliaid ei deyrnas ydynt gyfreithiau tragwyddol ac anghyfnewidiol naturiaeth ei hun, y rhai ydynt gyssyll-tiedig â threfnau y greadigaeth weledig, a hyny mor agos a phe yn deilliaw o honynt, y byddent yn un â hwynt mewn nodwedd a dech-reuad. Mae yr undeb yn brawf amlwg o dduwdod. Dwyfol yw yr hyn sydd unol â'r ysbryd dwyfol, yr hwn sydd yn byw ac yn anadlu trwy yr holl fydysawd. Mae yr hwn a ufuddha i'r cyfreithiau dwyfol mewn undeb â'r dwyfol anian. Yr hwn a esgeulusa y cyfreithiau dwyfol sydd yn esgeuluso ei hun. Yr hwn sydd yn gwrthryfela yn eu herbyn sydd yn gwrthryfela yn erbyn ei hun, a'r hwn a ryfela yn erbyn Duw a ddistrywia yn wallgofus ei enaid a'i ddedwyddwch ei hun yn y byd hwn ac yn yr un sydd i dd'od.

A chan i fod teyrnas Crist yn sylfaenedig ar gyfreithiau tragwyddol Duw, rhaid i'w llywodraeth ymdaenu fwy fwy yn barhaus. Dynion, yn teimlo yn annedwydd o herwydd cyfeiliornadau a phechod, a yrir gan fflangell ddioddefaint a phoen, i dderbyn a chadw gwirioneddau tra-gwyddol Duw. Cenhedloedd, wedi myned yn druenus trwy ffolinebau,

wedi eu dinerthu gan nwydau, ac yn amddifad o rym moesol, a ddygir gan aflwyddiant a siomedigaeth i edifeirwch, a droant eu gwynebau at Dduw i ufuddhau cyfreithiau tragwyddol bywyd sanctaidd a dedwydd. Pawb, pan unwaith eu treiddir gan ffydd yn ngeiriau Crist, a ddeuant o'u gwirfodd yn offeiriaid a chyhoeddwyr eu cynhwysiad dwyfol a bendigedig. Nis gallant yn hwy wrthsefyll dylanwad y newyddion da o lawenydd mawr, heb ymwrthod â'u deall eu hunain. Yn wan dichon y gallant ddyfod, gallant roddi lle i nwydau, ond byth ni allant gredu fod iechydwriaeth, fod gwir ddaioni, fod dedwyddwch parhaus, i'w cael, ond yn unig yn ymarferiad y dwyfol ddoethineb a draethwyd gan yr Iesu.

Yn wir, mae teyrnas Crist yn ymledaenu yn y byd, a hyny yn barhaus. Mor belled ag yr oedd yr erledigaethau yn yr Eglwys foreuol o allu boddi gair y bywyd y'ngwaed y cyffeswyr, mor belled a hyny yn ein dyddiau ni o allu lluddias ei gwrs yw amheuaeth, difaterwch, a choegedd. Gair Duw sydd drechaf. Fel ei awdwr, mae yn dragwyddol ei barhad.

Mae dynion yn wir yn gwahaniaethu, yn ol eu hamrywiol gyfansoddiadau meddyliol, yn eu golygiadau mewn perthynas i hanfod Duw, person y Cyfryngwr, a dull allanol addoliad, ond pynciau yw y rhai hyn a berthyn yn hytrach i'r deall nac i gynheddfau yr enaid—ffynonell ac anneddfa gwir grefydd.

Y'ngolwg Duw, nid yw ein gwahanol eglwysi ond cymmaint o wahanol dafodau. Fel mae y rheswm a ddeonglir gan y gwahanol dafodau hyny yn un, felly hefyd un yw y grefydd a gynrychiolir gan y gwahanol ffurfiau. Ffynai amrywiol syniadau a sectau crefyddol hyd yn nod y'mhlith meibion Israel. Condemnid y Samariaid gan yr Iuddewon, a'r Iuddewon gan y Samariaid; ond ni chymerai yr Iesu sylw o'r gwahaniaeth oedd rhyngddynt, ond gwahoddai y naill fel y llall i fwynhau gwynfydedigrwydd teyrnas nefoedd. "Ym mhob cenedl y neb sydd yn ei ofni ef ac yn gweithredu cyfiawnder sydd gymmeradwy ganddo ef" (Actau x. 35.)

Pan fyddo'r oes hon wedi myned heibio, a miloedd ar ei hol, y'nghyd a'u doethineb a'u ffoledd; dinasoedd ardderchog a fuont yn blaguro, wedi eu troi yn garneddau mewn anialwch; a gorseddau, o flaen y rhai y crynodd miliynau o blant dynion, wedi diflanu fel llwch o flaen y gwynt—ond athrawiaeth Crist Iesu byth ni heneiddia—byth ni chyll ei nherth. Bydd hi byw o hyd tra parhao dyn ar y ddaear. Gair y bywyd ydyw, a dyddanwch, a gobaith sicr, a roddes Duw i'r byd trwy Grist Iesu ein Harglwydd, yr hwn sydd "yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd" (Heb. xiii. 8).

Tan ddylanwad nerthol yr ystyriaethau hyn yr wyf yn cadw gwyl genedigaeth yr Iesu—dydd pwysfawr i'r byd—dydd ar yr hwn y dechreuodd y Goruchaf berffaith ddatguddiad o hono ei hun i feibion dynion. Yn unig pan y ffurfiwyf feddylddrych eglur a synwyrol o'r gwasanaeth fu'r Iachawdwr i ddynolryw, y tyr fy nuwiolder allan yn fflam, ac y cyna llawenydd fy enaid gan hyfrydwch. Addolaf yr Hollalluog yr hwn a wnaeth i'r gronyn o had mwstard i dyfu ac ymledaenu yn bren dirfawr, tan gangenau tawel yr hwn y mae cenhedloedd y ddaear yn cael bywyd a nerth adnewyddol. Addolaf yr Hollalluog yr

hwn sydd wedi dwyn oddiamgylch bethau mor bwysfawr eu canlyniadau o ddechreuad mor ddistadl. Galwaf hwynt i'm cof; âf drostynt yn bwyllog; daliaf arnynt sylw manwl, un ac oll—y ffeithiau a berthynant i'r Un Sanctaidd, o'i hûn gyntaf yn mhreseb Bethlehem, hyd ei hûn olaf ar y groes yn Calfaria. O mor fawreddog, mor ddwyfol yw'r cyfan!

Ynddo ef—yn ei fywyd a'i angeu—y dysgaf ac y cydnabyddaf y gwirionedd fod Duw yn caru y byd, ac iddo ein creu, nid megys dros ddiwrnod neu ddau, ond dros dragwyddoldeb, a'n dwyn allan o angeu diddymdra i fywyd a goleuni ysbryd gwirionedd a chariad. Os ein tynged yw i gael ein geni fel creaduriaid y maes, i dreulio ein hamser rhwng pleser a phoen, i enill ein bara beunyddiol, ac yna i suddo i angof tragwyddol, paham y rhoddodd llaw ordeiniol yr Anfeidrol Ddoeth ysbryd a deall mor gyflawn o gyneddfau a'n addasant i fywyd tragwyddol? A roddodd Efe i ni ddeall yn unig fel y gallem faeddu creaduriaid israddol, neu i gaffael gwell cyfaddasiadau i'n cyrph, neu ddanteithiach bwydydd, neu harddach gwisgoedd i guddio ein cymmalau? Paham y danfonodd i'r byd Ddatguddiwr Mawr gwirionedd dwyfol, mewn cydmariaeth i'r hwn nid yw pob lles a mwyniant daearol ond megys dim? A ddanfonodd Efe yr Iachawdwr yn unig fel y treuliem ni yma fywyd tawel a heddychlon, a dim yn rhagor? Paham y bywhaodd ynom trwy'r Iesu y fath chwenychiad am fywyd tragwyddol ag a'n gwna yn foddlawn dioddef ac aberthu pob peth er mwyn ein cael yn deilwng o wahoddiad i lawenydd ein Harglwydd? Pe wedi ein bwriadu yn unig i'r bywyd hwn, gallasem fod yn eithaf dedwydd, fel y creaduriaid israddol, oni bae y meddwl a'r gobaith sydd ynom am fywyd tu draw i'r bedd. Pe cyneuasai Duw ynom obaith am anfarwoldeb a ffydd yn y bywyd hwnw, yn unig fel y byddai i'r sawl a dreuliant fywyd caled yma gael porthi eu meddyliau â'r hyn ni chaiff byth ei gyflawni, yna byddai y sawl a ffafriwyd fwyaf y mwyaf truenus, a phethau gwerthfawrocaf a mwyaf dwyfol yr ysbryd, y twyll creulonaf; yna byddai Duw, nid yn Dduw y rhai byw, ond y rhai meirw; nid yn Dduw yr hyn sydd dragwyddol, ond yr hyn sydd farwol; a byddai y marwol a feddai y meddylddrych o dragwyddoldeb, ac yn addoli Perffeithrwydd Hanfodol, yn berson mwy dyrchafedig a dwyfol na'r Duwdod ei hun a elwir felly.

Nage, nage, nid ydym yn camsynied llais natur gymmaint; nid twyll yw cyfraith y deall, ac nid yw dyben dyfodiad Crist i'w chwerthin ymaith gan y rhyfygus a'r ffraeth. Mae Duw yn bod, a chariad yw, a'i gariad mwyaf a ymddengys yn y ffaith iddo anfon ei Fab i fod yn Iachawdwr y byd (Ioan iii. 16).

Dan ddylanwad y meddyliau yma y treuliaf y gwyl-ddydd hwn, pryd y datguddiodd Duw ei gariad mewn modd mor nodedig, nid llai nac yn ngenedigaeth un mor fawr. Ar y dydd hwn gyntaf y gwenodd yr Iesu yn mynwes dyner ei fam.

O fy Nuw a'm Tad! yr hwn wyf yn addoli yn awr â'm holl galon, pa mor bwysig yw fy rhwymau am y gwersi wyf yn dderbyn gan yr Iesu! Clyw, yr wyf yn deisyf arnat, lais fy llawenydd. Clyw ddiolch brwd fy enaid. Ystyria yn awr, a chymeradwya y cynhyrfiadau hyf-

rydlawn sydd yn gorlenwi fy ysbryd—fflamiau pur diolchgarwch yn esgyn oddiar allor calon a ddymunai dy foli mewn modd teilwng o'th anfeidrol gariad. Ie, yr ydwyt yn ein caru. O Dad! yr wyt yn fy ngharu i, oblegid ataf finau hefyd y danfonaist yr Iesu i'm harwain i'th deyrnas, ac i orlenwi fy enaid â'th ysbryd, fel y byddwyf dy blentyn bob amser ac i dragwyddoldeb. Yr oeddyt ti yn Dad i mi cyn i'm dy adnabod, ac a barhaï i fod yn Dad i mi am byth.

O Dduw! yr wyf yn teimlo dy fod yn fy ngharu, beth all fy niweidio? Beth all fy ngwneyd yn annedwydd, ond pechod, yr hwn wyt ti yn gasau. O angeu, pa le mae dy ddychryniadau? O fedd, pa le mae dy fuddugoliaeth? Pwy, a pheth, all fy nhaflu i lawr, tra mae Duw yn fy nal â'i law gariadus? Nid yw angeu na'r bedd yn dychrynu neb sydd yn adnabod Duw, ac yn teimlo nerth adgyfodiad yr Iesu.

A thithau, awr genedigaeth fy Iachawdwr, awr genedigaeth fy ngwynfydedigrwydd, derbyn fy ngroesawiad; sancteiddier di yn fy meddwl tra fyddwyf byw ar y ddaear, lle y bu Efe byw er fy lles. Trwot ti, fel dechreuad, mae'r byd yn llewyrchu arnaf yn ei gyflawn oleuni. Ynot ti yn unig, fel dechreuad bywyd yr Iesu, mae fy modolaeth innau yn bwysig, a phob peth a fu ac a fydd yn derbyn ystyr ddwyfol. Ie, eiddo Duw ydwyf! Clyw hyn, O fyd, a'th ddrain, a'th glwyfau, a'th ddolur, a'th ddagrau; clyw hyn, sef mai eiddo Duw ydwyf, ac nad yw dy afael di i fod arnaf ond dros ychydig bach o amser. Clyw dithau hyn hefyd, O dragwyddoldeb, yr hwn wyt yn fy nysgwyl a'th fyrdd o fendigedig gorau. Eiddo Duw ydwyf yn Nghrist Iesu. Amen.

Zschokke.

HYMN. Iolo, Cyf. ii. 65.

CAN sêr y wawr yn bêr y sydd!
Cân adwedd gwynfydedig ddydd;
Gorfoledd boed ein llef!
Dydd cân ein iechydwriaeth yw,
Dydd codiad Haul Cyfiawnder Duw,
Yn bur oleuni 'r Nef.

Lle bu'r tywyllwch, a'i holl waith,
Yn amgylchynu 'r ddaear faith,
A thrwyddi 'n ymdaith ni,
Ni welwn wawr yn torri'n rhydd;
Ymagor mae'n gyflawnder dydd;
O! 'n Duw, boed mawl i ti!

Dydd yw'n bywydu 'r galon drist,
Dydd genedigaeth Iesu Grist,
Dydd gwaredigaeth yw;
Clywn "gân angylion ar eu taith,"
A'r nefol newydd i bob iaith;
Gorfoledd meibion Duw.

Dydd yw'r dydd hwn, a'n Duw a'i gwnaeth,
Er agor i bob enaid caeth
Y ffordd i deyrnas Nef:
Pob cur a dderfydd, a phob cwyn,
Iachâd i'n byd yw'r awel fwyn
A gawn o'i esgyll ef.

Dewch holl dylwythau 'r ddaear lawr,
Holl fydoedd y bodoldeb mawr,
Yn un â chor y Nef ;
Yng nghyfrwym hardd cydwybod lân,
I'n Duw, 'n dragywydd, rhown ar gân,
Ei glod a'i foliant ef.

GWEDDI.

O Dduw, yr hwn yn ol dy gyngor tragwyddol a'th ewyllys gariadlawn a ddanfonaist i'r byd, ar y dydd hwn, dy Fab Iesu, " wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf ; fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad," yr ydym yn diolch i ti o'n calonau, ac yn bendithio dy enw sanctaidd, am roddi o honot i ni Iachawdwr, sef Iesu Grist ein Harglwydd. Yr ydym yn llawen roesawi y newyddion da o lawenydd mawr a ddygodd efe i'n byd. Bydded i ni ei dderbyn gyda chalonau diolchgar, a thra ar ein gliniau o'th flaen yn cyfarch dyfodiad gwaredydd mawr y byd, yr ydym yn gweddio yn ostyngedig ac yn ddwys am i'w ddylanwad ef gael ei dywallt ar ein heneidiau yn y fath fodd fel ag y caffom ein geni drachefn, a chyfodi o angeu pechod i'r gwir a'r tragwyddol fywyd, yn yr hwn y mae'th blant yn byw mewn cymundeb â'th ysbryd, ac ysbryd dy Fab, nid llai yn y bywyd hwn, nac yn oesoedd diderfyn tragwyddoldeb. Bydded fod hwn yn ddydd i'w gofio gan bawb o honom yn awr ger dy fron. Bydded iddo gael ei hynodi trwy dywalltiad dy ysbryd ar ein teuluoedd, i gynyddu ein serch at ein gilydd, a'n gwneyd yn fwy parod i gynorthwyo y naill a'r llall. Agor ein calonau i gofleidio, yn ysbryd yr Iesu, bawb ag ydynt o deulu'r ffydd, a phawb hefyd ag ydynt hyd yn hyn wedi sefyll y'mhell oddiwrth gorlan y bugail da. Bydded fod y dydd yma ag sydd adgoffa genedigaeth yr hwn oedd yn myned oddiamgylch gan wneuthur daioni, i fod yn dyst ynom ninau o ymledaeniad gwir haelioni Cristionogol. O'r amser hwn allan, bydded i fod esampl ein Dysgawdwr doeth a'n hanwyl Arglwydd, yn ffynu ynom i'r fath raddau ag i'n gwneyd yn llai hunanol, yn llai awyddus am bleser, yn llai ymroddus i'r byd, yn llai, Ah! yn llai caethwasaidd i bechod. O glanha ni, a ni fyddwn yn lan. Pura ein calonau, fel y gallom weled a theimlo dy wênau. Anadla ynom dy gariad dy hun, fel y byddom ninau hefyd dy weinyddion i'r anghenus—yn porthi y newynog, yn rhoddi i'w yfed i'r sychedig, ac yn arwain y pechadurus a'r trist ei galon at yr unig feddyginiaeth, yr unig falm effeithiol, a roddir genyt yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Amen.

HERIAD IUDDEW.—Dywedir fod y Parch. Dr. Wise, golygydd yr *Israeliad*, Cincinnati, America, yn cynyg gwobr odidog i'r Parch. W. C. McCune, cawr y Drindod, os y profa efe yn deg o'r Testament Newydd fod Iesu Grist yn Dduw. Gobeithio y derbynia y gwr parchedig y *challenge*, ac os yw ei sel dros eneidiau gymmaint ag y meddylir, ni a ddysgwyliwn weled prawf perffaith o wirionedd yr Athrawiaeth, neu ynte addefiad gonest o'i anallu.

Esboniad.

Marc xi. 20, 21. *A'r boreu wrth fyned heibio hwy a welsant y ffigysbren wedi crino o'r gwraidd. A Phetr wedi adgofio, a ddywedodd wrtho, wele y ffigysbren a felldithiaist wedi crino.* Gwel hefyd Matt. xxi. 19, 20.

I'r dyben i geisio dangos nad all y wyrth hon fod yn wir, cymer gwrthwynebwyr Crist'nogaeth, a gweithredoedd nerthol yr Iesu, fantais o un neu ddau o bethau nad ydynt yn hollol eglur yn yr adroddiad i ddarllenwyr yn gyffredin. Dywedant nad yw yn debygol y buasai Duw mewn modd gwyrthiol yn peri i'r ffigysbren grino, am ei fod yn beth afresymol i ddysgwyl ffigys arni maes o amser ffigys. Dywedant hefyd fod yr Iesu mewn ysbryd tra annymunol pan y melldithiasai bren, o ganlyniad, nad yw yn rhesymol y caniatasai Duw iddo ei ddymuniad. Yn gymmwys fel pe yr elech chwi i'ch gardd i ymofyn eirin-mair yn y gauaf, ac o herwydd na chaech y ffrwyth y pryd hwnw, eich bod, er mwyn ymddial ar y llwyni, yn eu melldithio. Dyn gwallgof fyddech. Dyma yn gymmwys fel mae gwrthwynebwyr gwyrthiau Crist yn ei ddarlunio mewn cyssylltiad a'r wyrth hon. Y pwnc ydyw, a ydynt yn iawn? Camddarlunio yr hanes y maent, p'un ai yn wirfoddol ai peidio, hwy wyr oreu.

Yn awr, dywedwn fod y fath wrthwynebiadau, fel llawer eraill o eiddo y Deistiaid yn erbyn gwyrthiau Crist, yn ymddibynu mwy ar swn geiriau, nac ar ffaith.

Y ffigysbren yr hon a felldithiaist.] Yn ol yr hanes yn Matthew xxi. 19, yr unig felldithio wnaeth yr Iesu oedd dyweyd yn ngwydd ei ddysgyblion, ac eraill a ddygwyddent fod yn bresenol, "Na thyfed ffrwyth arnat mwyach." Mae melldithio, yn ol y meddwl cyffredin, yn cynwys dymuniad i ymddial, ond yn y frawddeg hon nid ymddengys dim o'r fath beth. Er hyny, dyma y geiriau lefarodd yr Iesu, a'r rhai a eilw Petr yn felldithio. Y gwir yw, nid yw melldithio yn y fan yma yn cynwys llid. Arferai yr Iuddewon y gair *melldith* weithiau i ddynodi cyflwyniad i farwolaeth neu ddinystr, fel yn Heb. vi. 8, lle y dywed yr awdwr fod y dynion hyny a syrthiant ymaith oddiwrth eu proffes Gristionogol, yn debyg i ddrain a mieri, y rhai ydynt yn anghymmeradwy gan yr hwsmon, ac yn agos i *felldith*, sef dinystr.

Marc xi. 13, *Canys nid oedd amser ffigys.*] Hyny yw, nid oedd yn amser casglu ffigys eto—nid oedd y cynhauaf ffigys wedi dechreu eto, er eu bod yn aeddfed—am hyny yr oedd yn rhesymol i ddysgwyl fod ffigys ar y pren. Cymerodd hyn le yn wythnos y Pasg, neu ddechreu mis Ebrill. Mae ffigys yn Judea fynychaf yn aeddfed y pryd hwn, gan fod yr haf yno yn dechreu yn mis Mawrth, ac nid yw yn beth anghyffredin fod ffigys yn aeddfed yn Ebrill. Ond nid oes eisiau ychwanegu, oblegid gall y darllenydd yn awr ddeall beth feddylia Marc yn y sylw a wna, sef "nad oedd yn amser ffigys," ac i fod yn eithaf rhesymol i'r Iesu ddysgwyl fod ffigys ar y pren.

Dylai y darllenydd hefyd wybod fod rhyddid, yn ol y gyfraith Iuddewig, i ddyn fwyta, os y byddai eisiau arno, o rawnwin, neu yd ei

gymydog, ac wrth gwrs o'i ffigys, ond ni chaniateid iddo gario dim ymaith. "Pan ddelych i winllan dy gymmydog, yna bwyta o rawnwin dy wala, wrth dy feddwl; ond na ddod yn dy lestr yr un. Pan ddelych i yd dy gymmydog, yna y cai dynnu y tywysenau â'th law; ond ni chai osod crymman yn yd dy gymmydog," Deut. xxiii. 24, 25. Am hyny os y celai yr Iesu ffigys ar y pren, yr oedd hawl ganddo, yn ol cyfraith y wlad, i fwyta cymmaint ag oedd yn eisiau arno.

Yr ydym yn awr wedi dangos beth sydd i ddeall wrth fod yr Iesu yn melldithio y ffigysbren, hefyd wrth sylw Marc, sef nad oedd yn amser ffigys, ac i fod hawl gan yr Iesu i gymeryd o'r ffrwyth, pe fuasai ar y pren, er mai nid ei eiddo ef oedd.

Ti weli yn awr, ddarllenydd, nad oes dim sail gan anghredinwyr yn ngwyrthiau Crist i ddefnyddio y wyrth hon fel esampl, er mwyn ceisio dangos mor wrthun yw y fath grediniaeth. Nid oes dim sydd yn wrthun nac yn afresymol yn y wyrth hon.

Dyben y wyrth. Tybia rhai fod y ffigysbren hon yn cynrychioli yr Iuddewon, y rhai, er cymmaint eu breintiau crefyddol, oeddynt wedi myned yn ddiffrwyth, ac i fod gwaith Crist yn melldithio y pren yn rhagddangos y dinystr ag oedd yn fuan i'w goddiweddyd. Mae *Timothy Kenrick* o'r dyb hwn yn ei esboniad, ond beth a'i tueddodd i'w chofleidio, nid yw yn dyweyd. Nid ydym ni yn gallu gweled fod y fath ddyben yn ateb un lles, nac i'r genedl, nac i'w ddysgyblion, ac am hyny yr ydym yn gwrthod y dyb.

Ymddengys i ni mai dyben y wyrth hon, fel gwyrthiau Crist yn gyffredin, oedd gwneuthur argraff ddofn ar feddyliau y dysgyblion a'r genedl o barthed iddo ei hun fel cenhadwr oddiwrth Dduw. Yr oedd yn ofynol cael, yn enwedig y dysgyblion i gredu hyn yn drwyadl, ac yr oedd y gweithredoedd yn brofion diamheuol ei fod y peth y proffesai, sef y Crist. Ni allasai ei athrawiaeth wneuthur hyn, gan nad pa mor awdurdodol a doeth bynag y llefarai. Anghofiasid ei eiriau mewn ychydig amser, ac aethai o'r byd heb wneyd mwy o argraff arno nac a wnaethai dysgawdwyr eraill cyffelyb iddo.

Yr oedd y fath ddyben, gan hyny, yn angenrheidiol, yn gyntaf i'w ddysgyblion. Iddynt hwy yr oedd i ymddiried ei genadwri, a hyny y'mhen ychydig amser. Hwy oeddynt i fod ei genhadon i'r byd, ac yr oedd y gwaith yn gofyn llwyr ymroddiad—yr holl galon iddo—onite buasent yn sicr o lwfrhau o herwydd y gwrthwynebiadau a'r peryglon oedd ar eu cyfer. Am hyny yr oedd yn ofynol eu llwyr argyhoeddi fod y genadwri a dderbyniasant ganddo o Dduw. Nid oedd dim yn fwy effeithiol i wneuthur y fath argraff—i greu y fath argyhoeddiad—na'r gallu aruthrol a welent oedd wedi ei dderbyn, ac yn cydfyned â'i eiriau. A dyma yr effaith a gafodd y gwyrthiau arnynt. Pan yn cyhoeddi i'r byd y genadwri a dderbyniasant gan yr Athraw, ni allasai y peryglon mwyaf eu dychrynu, na'r driniaeth greulonaf eu rhwystro yn y gwaith pwysfawr a ymddiriedwyd iddynt gan un ag oedd wedi rhoddi iddynt brofion diamheuol o ddwyfoldeb ei ddanfoniad.

Yr oedd y dyben yn angenrheidiol i'r byd. Ni allasai dim ond gweithredoedd nerthol yr Iesu gyffroi yr Iuddewon y pryd hwn, oblegid mewn ystyr grefyddol yr oeddynt hwy, fel y cenhedloedd, wedi myned

yn farwaidd a difater. Yr oedd addysgiadau moesol yr hyawdlaf o athronwyr wedi methu eu dihuno o'u cysgadrwydd. Er i fod yr Iesu yn llefaru fel un ag awdurdod ganddo, er hyny, fel y sylwasom yn barod, anghofiasid mewn ychydig amser ei ddoethineb, gan nad faint oedd yn rhagori, oni buasai y cyffroad annhraethol a grewyd gan y gweithredoedd digyffelyb ag oedd cannoedd yn dystion o honynt, a llawer wedi derbyn lles corphorol oddiwrthynt. Ni fu yn Judea erioed gyffroad crefyddol cyffelyb i'r hwn a wnaethpwyd gan yr Iesu. Y'mhob man yr elai canlynid ef gan dorfeydd mawrion, oblegid yr oedd son am dano wedi myned trwy yr holl wlad, ac hyd yn nod i dueddau Tyrus a Sidon. Yn y gwyliau yn Jerusalem, am y prophwyd rhyfeddol o Nazareth y siaradai pawb, a llawer a gyrchai yno yn un swydd er mwyn cael golwg arno. "Beth debygwch chwi," meddent, "a ddaw efe i fynu i'r wyl?" Nid cyffroad oedd ychwaith a ddarfu gyda'i groeshoeliad, ond parhaodd dros amser hir. Cymmaint oedd y cyffroad rhyfeddol fel y darfu i dair mil uno a'r Eglwys mewn un dydd. Llawer a werthent eu meddianau er ei fwyn, i ranu y cynnyrch rhwng eu brodyr tlawd. Yn eu sel a'u brwdianwch aeth yr Apostolion i wledydd pell i gyhoeddi y gair. Nid oedd dim a'u rhwystrau, na newyn, na charchar, nac angeu ei hun!

Yn awr beiddiwn ddyweyd na allasai addysgiadau moesol y doethaf o ddynolryw byth achosi y fath gyffroad, ac nid yw yn bosibl cyfrif am dano heb addef gwirionedd yr hanes am yr Iesu, sef iddo wneuthur gweithredoedd na welwyd o'u bath erioed o'r blaen.

Yn sicr, y mae gwyrthiau yr Iesu yn wir. Ymddengys i ni fod y sawl ydynt yn ceisio cyfrif am y cyffroad crefyddol a wnawd gan yr Iesu a'i ddysgyblion, trwy ei briodoli i achosion naturiol, yn credu mewn gwyrth llawer mwy afresymol nac ydym ni ac eraill sydd yn credu yn ngeirwiredd yr hanes am dano yn y pedair Efengyl.

[Nid ydym yn atebol am syniadau ein gohebwyr, ond y mae rhyddid yn yr YMOFYNYDD i bob barn gael ei llafar.—GOL.]

BIBLIOLATRY, NEU LYFR-ADDOLIAETH

(PARHAD O TUD. 251).

PE cymeryd ymaith y Beibl o'r byd, nis gellir cymeryd ymaith gydwybodolrwydd o'r byd. Y mae y teimlad o'r gwahaniaeth sydd rhwng da a drwg yn blanhigyn cyffredin. Ond chwi a ddywedwch fod y gydwybod yma, yn gyntaf, yn dywyll, yn gyfnewidiol, ac yn gamgymeriadol. Sicr iawn. Ond felly hefyd yw synwyrau y plentyn sydd yn ymestyn ei law am y lleuad fel pe bai yn *orange*.

Ond, meddwch, "Y Beibl sy'n goleuo'r gydwybod." Sefwch fan yna. Y mae'r Beibl yn cynorthwyo, yn goleuo'r gydwybod. Y mae'r Beibl yn cydweithio gyda phob dylanwad da arall,* megys ysgolion, cyfreithiau

* Mae'r Beibl yn dda ynte. Paham y dywed yr awdwr ddim yn ei erbyn? Mae ofn a chariad at Dduw, yr hyn a gymhella y Beibl, yn egwyddorion sylfaenol, ac yn galluogi dyn i wneyd defnydd da o bob peth sydd yn dylanwadu ar ei fywyd. Beth all fod yn fwy o gymeradwyaeth i'r Beibl?—GOL.

gwladol, celfyddyd, philosophyddiaeth, esampl, llenyddiaeth, profiad, a phob peth arall sy'n nerthu neu yn dyrchafu dynolryw. Nid yw y Beibl ond un dylanwad y'mhlith llawer sy'n gweithredu yn ol ac yn mlaen, ac yn cydgynorthwyo eu gilydd.

Dangosir hyn yn amlwg yn y ffaith fod yna bechodau nad yw'r Beibl yn eu henwi,* ond y'nghylch pa rai y mae syniad moesol cymdeithas yn fwy eglur nag y'nghylch llawer o bechodau ag y mae'r Beibl yn eu condemnio. Cymerwch, fel engraifft, y pechod o hunanladdiad. Meddyliwch mor gref y mae cydwybod y byd wedi bod yn eu gwrthdystiad yn erbyn y cam yna. Y mae deddfau gwledydd wedi gosod y pechod yna yn yr un rhestr â dyn-laddiad, ond am nas gallai'r deddfau gwladol lofruddio, sef crogi yr hunanleiddiad, y maent wedi lladd enw da y truan, ac wedi gommedd bedd iddo. Nis gwn am un syniad mwy cyffredinol na'r condemniad o'r pechod yma, ac eto, y'mhle y mae'r condemniad o'r pechod hwnw yn y Beibl?

Y mae hefyd ffaith neillduol mewn perthynas i'r pechod o ddyweyd anwiredd. Y mae pawb yn meddwl mai peth drwg ydyw dyweyd celwydd; drwg mwy, yr wyf yn gobeithio, na'r trosedd sydd wedi ei wneuthur yn bechod gan ddyn, sef tori'r Sabboth; a gwaeth na chwennych eiddo ein cymydog—tra yr ymgadwom rhag ei ladratta. Ac eto, tra y mae'r "deg gorchymyn" yn condemnio tori'r pedwerydd a'r degfed gorchymyn, nid yw yn edrych ar anwiredd heb falais, hyny yw, ar *pious fraud*, fel peth yn werth ei enwi. Y mae Dafydd a Solomon yn condemnio celwydd. Nid yw'r Iachawdwr mewn un man, yn eglur, yn condemnio anwiredd geiriol.† Yr wyf, er hyny, yn credu fod Crist yn melldithio anwiredd a *pious fraud* wrth daranu yn erbyn rhagrith. Nid wyf yn nodi y pethau hyn ond yn unig i ddangos fod dynion, yn wirioneddol, yn barnu yn annibynol â'r Ysgrythyrau. Yr wyf yn meddwl ein bod ni pan yn condemnio pechod yn barnu o honom ein hunain yn gyntaf, ac wedi'n yn edrych tua'r Beibl, os edrychwn hefyd, am resymau o'r Beibl. Ac hefyd dyna'r anhawsder yna yn ychwaneg, sef fod y darllenydd sydd yn edrych i'r Beibl am resymau o blaid ei olygiad, yn sicr o'u cael, bydded ei olygiad mewn gwirionedd yn dda neu'n ddrwg, yn gywir neu'n anghywir. Y mae un darllenydd yn dymuno cael dadl o'r Beibl o blaid Cosp Farwol, a dyna efe yn dyfod o hyd i—"Y neb a dywallto waed dyn, gan ddyn y tywelltir ei waed yntau." Esbonia yr adnod fel gorchymyn, yn lle fel prophwydoliaeth, er nad astudiodd Hebraeg erioed. Glyna wrth y grogbren fel allor tecaf Duw. Ac er bod yn yr un benod, Gen. ix. 4, gondemniad o gïg gwaedlyd, hyny yw *fres*, eto os bydd yn dymuno bwyd o'r fath, fe fyn ei gael, a hyny yn hollol yn erbyn gwaharddiad y Beibl. Y mae darllenydd arall o'i Feibl yn erbyn pob ymdrech i symud tlodi o'r byd am fod Iesu wedi dyweyd—"Y mae genych y tlodion bob amser gyda chwi." Fe wrthwyneba y darllenydd yna bob ymdrech o'r fath rhag fod perygl i ni symud tlodi o'r byd yn rhy fuan. Ond eto, cymerwch gōt y darllenydd yna, a gofynwch am ei gochl hefyd; tarewch ef ar un rudd, a gofynwch

* Mae egwyddorion y Beibl yn condemnio pob pechod heb enwi ond ychydig.—Gol.

† Mae egwyddorion Crist yn ei gondemnio, ac onid yw hyny yn ddigon?—Gol.

iddo droi'r llall am ddyrnod arall; gorfodwch ef i gerdded milltir, ac yna dangoswch iddo y testyn anwrthwynebadwy sy'n gofyn am ffilltir eto ganddo, a chwi a gewch weled a ydyw yr Ysgrythyr egluraf yn arwyddo dim iddo ef pan y bydd hi'n myned yn erbyn ei duedd.

Y mae'n beth anmhosibl i osod i lawr feddwl mor eglur na bydd y proffeswr anewyllysgar yn gallu perswadio ei hun fod y meddwl, y gosodiad, yn arwyddo rywbeth arall.* Nid yw i ddim pwrpas fod ysgrifenydd y benod gyntaf o Genesis yn desgrifio'r ffurfafen fel pe bai hi yn gorph *solid* yn cynwys y gwlaw, a ffenestri yn y corph hwnw i ollwng i lawr y gwlaw yu ddiferion; nid yw i ddim pwrpas fod yr ysgrifenydd yn dal allan yr haul a'r holl sêr fel lampau, hyny yw, mai lanternau crogedig ansymudol ydynt, wedi eu gosod yna ar ol gwneuthur y ddaear. Nid yw i ddim dyben fod yr ysgrifenydd yn darlunio gwallgofion fel rhai, hyny yw, yn rhai wedi eu meddianu gan gythreuliaid, ac y gellir trosglwyddo'r cythreuliaid o ddynion i foch ;† nid yw i ddim amcan fod Crist yn mynegu yn eglur a llythyrenol—"Hwn yw fy Ngorph"—am y bara cysegredig: peth ofer yw i Grist ragfynegu ei ail-ddyfodiad ar gymylau'r nef, yn oes ei ddysgyblion presenol. Ofer yw i ysgrifenydd llyfr y Dadguddiad weithio i fynu y rhagfynegiad yna i *drama* o'r math goruwchaf. Y mae'r holl bethau hyn yn ddibwys; gall "y neb a redo, ddarllen," ond, yr hwn sy'n glynu wrth ei Gyffes Ffydd a wrthyd ddarllen; ac efe a ddirdyna holl reolau Grammadeg, ieith-darddiad, ac iawn-drefniad-iaith, yn hytrach na chael yn y Beibl yr hyn nid yw yn dymuno ei gael.

Y mae pethau tywyllach na'r rhai yna oll yn ac am y Beibl; pethau na fyddwn i ddim yn foddlon ei dangos yma; pethau sydd yn ysgwyd fy nghydwybod o herwydd eu anfoesoldeb a'u anfoesgarwch; pethau yn erbyn y rheswm y mae fy Nuw wedi roddi i mi; pethau creulon; pethau annhebygol; ffieidd-dra anghyfaneddol.‡ Ac eto y mae rhai personau o'r cymeriad uwchaf wedi ymorphwys ar y pethau hyny gydag hyfrydwch.

Y mae'n wir fod Moses Stuart yn barod i amheu cymeriad adeiladol Caniadau Solomon, adeiladol i ieuengctyd yr oes bresenol; ac eto y mae rhai o'r saint dewraf wedi ymarferyd a darllen Caniadau Solomon yn hwyr eu heinioes.

Y mae dynion yn darllen ac yn cael yn y Beibl yr hyn a garont ddarllen a chael; y maent yn cael yn y Beibl yr hyn a gludont yno.

Meddyliai y Puritaniaid, pan ddaeth yr arferiad i mewn yn gyntaf, o wisgo *wigs*, sef gwallt *artificial*, fod yr arferiad yn union yn erbyn goleuni Natur a gorchymyn pendant y Beibl. Ysgrifenodd duwinyddion dyfnion bregethau soniarus i ddangos mai angerdd Duw yn erbyn pechod y *wigs* oedd y tanau damweiniol a ddygwyddent yn eu hamser; ac eto, yn fuan daeth yr arferiad "melldigedig," "annaturiol,"

---

* Nid yw'r Beibl yn atebol am anghyssonderau ac anwybodaeth dynion.—Gol.

† Cynghorem yr awdwr i ddarllen *Farmer on Demoniacs*. Nid ydym wedi deall mai dyben y Beibl yw dysgu i ddynion *Natural Philosophy*.

‡ Oes yn sicr, ond a all yr awdwr ddangos eu bod yn cael eu traethu gyda chymeradwyaeth, neu er mwyn i eraill wneuthur yr un pethau?—Gol.

"anysgrythyrol," yn gyffredinol iawn y'mhlith y duwinyddion; yn wir, yn fuan y duwinyddion yn unig a gadwent yr arferiad yn fyw, ac nid ydym yn clywed mwyach ddim am gondemniadau Natur ac "Ysgrythyr arbenig." Yr un dynion ag a gondemniasant ddewiniaid, yn gyntaf am i'r Beibl ddyweyd—"Ni chei oddef i ddewin fyw"—oeddent y cyntaf i attal y condemniadau pan gawsant allan fod y barnedigaethau ar y dewiniaid yn ychwanegu eu nifer. Y mae yr un cyfnewidiad yn myned y'mlaen yn awr ar y pwnc o Gosp Farwol.*

Pe dymunech wneuthur penderfyniad unrhyw gwestiwn moesol yn anobeithiol, cyfeiriwch ef at awdurdod Ysgrythyrol.

Y mae y Feibl Gymdeithas wedi gwneuthur y llyfr goreu yn y byd yn gyrhaeddadwy i bob cenedl ar y ddaear, oddigerth Indiaid Gwylltion America; ond yn yr holl gronfa fawr yna o destynau, nis gellwch wneuthur i neb ddarllen yr un testyn na fyddo yn dewis ei ddarllen. Pasia heibio y rheol auraidd, ond efe a wel ordinhad dwyfol a bythol yn y testyn—"Melldigedig fyddo Canaan," os creda yn nghyfiawnder Caethwasiaeth. Gall y darllenydd yna hysbysu i ni ansawdd a swm y gwin a greodd Crist yn y briodas yn Cana. Clywais dduwinydd mawr yn gwneuthur yr amcangyfrif. Ac felly efe a adeilada Cana a Chanaan yn gaerau *solid* i amddiffyn ei bechodau anwyl; ac efe a gaiff' ddefnyddiau am gymaint drachefn ag y gwel efe ei hun mewn angen am danynt. Peth pergynyrfiol ydyw darllen prophwydoliaethau gan y Cenadon Ffrancaeg at y Mongoliaid. "Mor fuan," medd y Cenadon, "ag y byddwn wedi dysgu iddynt WEDDI YR ARGLWYDD fe gwymp Caethwasiaeth yn Tartary." Ond fe adroddwyd Gweddi yr Arglwydd am gan mlynedd mewn gwledydd lle yr oedd Caethwasiaeth, cyn ei dinystrio.

Peth maleisddrwg ydyw gwneuthur allan fod cymeriad moesol dyn yn gydfesurol a'i wybodaeth Ysgrythyrol. Yr wyf yn adnabyddus a dynion afradlon ag ydynt ar yr un pryd yn rhai galluog yn yr Ysgrythyrau. Yr wyf yn adnabod dynion pur, tlawd a chyfoethog, yn rhai mwyaf urddasol, ac eto yn hollol ddiystyr o'r Beibl. Dygwyddais gysgu, gweithio, bwyta, a byw efo Atheistiaid. Ni welais frycheuyn ar eu cymeriad moesol. Y mae Lord Bacon yn dyweyd mai dynion mwyaf moesol y byd ydyw Atheistiaid,† canys nid oes ganddynt ond eu cymeriad. Nid oes dim *pious fraud* yn eu plith. Nid oes eisiau uffern i'w dychrynu, nac athrawiaeth yr Iawn, sef fod yr anfeidrol Gyfiawn yn cosbi yn gyfiawn y diniwed er mwyn i'r euog gael maddeuant a theimlo *gratitude*, cariad effengylaidd i'w fachnïydd—nid oes eisiau y chwedl yna arnynt. Dyledswydd; caru'r da, a chasau'r drwg, heb ddyben cynhyrfiol annaturiol, gwrthwynebol, croes i reswm a chydwybod, ydyw camp uchel yr Atheist. Hyny yw, y mae gan yr Atheist ei dduw, sef Dyledswydd; ond ni fyn ddim i wneyd â Duw yr iawn-gred,

* Hyny yw, mae dynion yn camgymhwyso y Beibl. Nid yw hyny yn rheswm yn ei erbyn.—GOL.

† Mae Atheistiaeth ynddi ei hun yn anffafriol i rinwedd; ond dylai yr awdwr ystyried fod dylanwad Cristionogaeth yn cael ei deimlo hyd yn nod gan y sawl a'i gwrthodant. Mae ei hysbryd hefyd yn dylanwadu ar lawer nad ydynt yn ei phroffesu. Nid oes dim grym yn *argument* yr awdwr.—GOL.

yr *orthodox*, yr hwn, medd yr Atheist, sydd yn debycach i ddiafol anfeidrol ar brydiau, yn ol fel ei ddesgrifir yn y Beibl.* Mor amrywiol ydyw cynwysiad y Beibl! Y mae ynddo rywbeth i bob chwaeth. Y mae un darllenydd yn mwynhau y duwiolfrydedd tlws sydd yn Psalm cvii.; y mae un arall, fel President Edwards, yn ymhyfrydu yn ysbryd cythreulig y Psalm cix.; † "Mwynheais brofiad melus," medd Edwards, "wrth fyfyrio am sancteiddrwydd yr Anfeidrol fel y mae yn ymddangos yn y damnedigion sydd yn y carchar tragwyddol." Y mae un darllenydd yn canmol gwroldeb y genedl Iuddewig; un arall ei chredo gul, a damniol i'r miliwnau dirifedi nas clywsant am dani. Y mae un yn darllen Caniad Solomon, un arall lyfr y Pregethwr; un yn chwilio am wyrfydau pregeth Crist ar y mynydd, arall am *metaphysics* Paul; a'r llall chwareuyddiaethau llyfr y Datguddiad.‡ Gall fod na dderbynio cymeriad yr un darllenydd ddim dylanwad oddiwrth ddarllen y Beibl yn unig, oblegid er bod gan lyfrau ddylanwad, eto nid yw y Beibl ond un o lawer o lyfrau sydd yn cyfansoddi y ddoethineb sydd yn tarddu oddiwrth brofiad. Y gydwybod wedi ei gloewi a'u gwellhau§ gan brofiad, *experience*, ydyw ffynon pob cymeriad gogoneddus a chanmoladwy, ac yn werth amser ei efelychu. Y mae pob dyn mewn gwirionedd yn ffurfio ei farn foesol yn nghanol dyrys bethau y bywyd hwn, o'i dymher, dygiad i fynu, ac amgylchiadau, ac nid ar sail awdurdod Ysgrythyrol. "Fel y meddylia dyn yn ei galon, hyny ydyw efe." Y mae yr hyn a feddylia dyn yn ffrwyth mil o ddylanwadau; megys ei dueddiadau genedigol, gwreiddiol, etifeddiaethol, cynenid, hyny yw, pethau a gafodd cyn ei eni. Ac ar weddiau a dagrau ei fam a'r ol ei eni; ar gynghorion y teulu, yr eglwys neu'r capel, y cymydogion, y cydnabod; awyr moesol y plwyf y bywiodd ynddo; y bechgyn y cydchwareuodd a hwynt; yr ysgol yr aeth iddi; y llyfrau a'r newyddiaduron a gymerwyd i'w dy ac a ddarllenodd; ei ddewisiad o alwedigaeth fasnachol, ac esamplau eraill o'i amgylch ac yn yr un alwedigaeth. *Example is more powerful than precept*, medd y Sais. Swn y cwbl a glybuwyd am yr elfenau, yr offerynau, yr

---

* Dylai yr awdwr gofio mai llefaru y mae yma yn erbyn llygredigaethau Cristnogaeth. Y'mha le yn y Beibl mae y fath ddesgrifiad?—Gol.

† Yr unig beth ellir ddyweyd yn erbyn y Salm hon yw fod yr awdwr yn anwybodus o ysbryd Crist, ac nid yw hyny yn rhyfedd, oblegid yr oedd yn byw gannoedd o flynyddau cyn geni Crist. Er hyny dylai awdwr y Traethawd hwn gofio mai yn erbyn y dyn twyllodrus a'r tafod celwyddog mae'r Salmydd yn llefaru—yn erbyn y sawl a fyddent yn euog o'r "*pious fraud.*" Er i fod brawddegau yn y Salmau yn cynwys ymddial ar elynion drygionus, mae ysbryd y Beibl yn erbyn drwg—dyna yw ei ganol swn.—Gol.

‡ Ni fu eenedl wrolach crioed na'r un Iuddewig. Nid yw ei chredo ychwaith yn gul, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Credo yn yr unig wir Dduw ydyw. Pwy niwed sydd yn llyfr y Caniadau a'r Pregethwr? Nid yw yn waradwydd i Paul ei fod yn *metaphysician*. Mae'r Apostol nid yn unig yn gymeriad mawreddog, ond yn ymresymwr cadarn. Ni fyddai yn ddrwg i wrthwynebwyr y Beibl pe ei cymerent yn esampl iddynt. Yn un peth hwy ganfyddent mai nid llyfr chwareuyddiaethau yw y Datguddiad?—Gol.

§ Gwellhau y deall mae *experience* neu brofiad yn ei wneyd, ac nid y galon. Y peth sydd yn gwellhau y galon yw ofn Duw, yr hyn a ddysgir yn y Beibl.—Gol.

amgylchiadau, yw fod A.B., John Jones, dywedwch, pan yn 25 oed yr hyn ydyw, a'i holl *gualities* a'i dueddiadau, a'i arferion da a drwg. Fe farna John bob moment yn ol ei gymeriad personol a'r amgylchiadau presenol; ac fe allai pe baech wedi'n yn gofyn i John reswm am ei ymddygiad, fe allai mai apelio at ryw awdurdod Ysgrythyrol y gwnai.

TWYLL Y BYD.

"*Telyn Dewi,*" tud. 76.

Y Byd sy', f' anwylyd, yn llawn twyll a brad,
Gwir gariad sy'n berlyn na chair yn ein gwlad;
Mewn talaith mor iraidd on'd yw e'n beth chwith
Fod ffynon diddanwch bron sychu 'n ein plith?

Ti, Gariad, felusi holl chwer'der y byd,
A phleidiau croes ddodi mewn undeb y'nghyd;
Och! hebot 'dyw golud, nerth, clod, a bri mawr,
Ond gweigion gysgodau 'n diflannu 'mhen awr.

'Does unpeth mor werthfawr a chyfaill da mwyn
I uno 'n ein gwynfyd, a gwrando ar ein cwyn;
Llawenydd, o'i dannu, sy 'n myned yn fwy,
Ac adrodd ein gofid sy 'n eli i bob clwy'.

Pan weno'r byd arnoch bydd miloedd trwy 'r wlad,
Yn cynnyg gwasanaeth a'u rhoddion yn rhad;
Ni ofyn un wedi 'n o honyn' eich hynt
Mewn adfyd;—can's diriaid i'r gwybed yw'r gwynt.

LLYTHYR PHILALETHES.

Syr,

Caniatewch i mi ddyweyd fy mod fel un yn anghymeradwyo llythyr Philalethes yn gymmaint o bosibl ag yr anghymeradwya efe erthygl B. y'nghylch Moses a'r prophwydi Iuddewig. Pell ydwyf o goleddu syniadau B. Nis gallaf, er fy marw, weled ar ba sail y dyga y fath gyhuddiad prysur yn eu herbyn, oblegid ni chynyga un math o reswm. Os y meddylia neb fod yr adnodau yn Exodus yn cyfiawnhau y cyhuddiad, da genyf weled eich bod chwi yn eich esboniad yn dangos nad oes sail i'r fath dybiaeth. Ond beth bynag am erthygl B., nis gallaf lai na thybied fod Philalethes yn anfoneddigaidd yn ei lythyr, a dyweyd y lleiaf. Os Undodwr yw, rhyfeddaf am dano, oblegid fel corph mae'r Undodiaid yn caru rhydd-ymofyniad, a phob amser yn barod i wrando yr hyn sydd gan eraill i ddyweyd dros eu golygiadau crefyddol. "Bawaidd" yn wir! Nid oes dim sydd yn fawaidd yn erthygl B. Mae yn ysgrifenu yn dawel ac mewn iaith hollol ddidramgwydd i neb. Yn sicr, y mae yn rhy ddiweddar o'r dydd i ddystewi gwrthwynebwr yn y modd yr amcana Philalethes. Meddyliaf hefyd ei fod yn eich beio chwithau yn hollol ddiachos am gyhoeddi yr erthygl. Beth, onid yw'r YMOFYNYDD yn gyhoeddiad rhydd? Nid wyf yn

gweled ar bwy dir y gallasech wrthod ei gyhoeddi, a mentraf ddyweyd fod gan y rhan amlaf o'ch darllenwyr ddiolch i chwi am hyny, yn enwedig y sawl sydd yn chwenych gweled dau wyneb y ddalen. Meddwl wyf fi, Syr, y buasai yn llawer clodforach i Philalethes, yn lle *scoldian*, pe cymerasai mewn llaw i ddangos nad oes dim sail i'r cyhuddiadau a ddyga yn erbyn Moses, fel yr ydych chwi wedi gwneuthur. Gobeithiaf y glyna yr YMOFYNYDD yn wastadol wrth yr egwyddor o roddi rhyddid i bawb ddyweyd eu meddwl ar bob pwnc. Yr wyf hyd yn hyn wedi edrych ar yr YMOFYNYDD fel yr unig fisolyn enwadol *rhydd* yn Nghymru. Gobeithio nad wyf wedi camsynied.

Blaenllechau. ANTIPHILALETHES.

[Mae tudalenau yr YMOFYNYDD yn agored i bawb a ddewisant draethu eu golygiadau crefyddol ynddo, gan nad pa mor groes bynag fyddont i'n syniadau ni. Ond cofied y darllenydd mai Undodiaeth Gristionogol yw egwyddor sylfaenol yr YMOFYNYDD, ac mai ei brif ddyben yw ei hegluro a'i hamddiffyn; er hyny mae y cyhoeddiad yn rhydd i bawb, gan nad beth fyddo eu barn, i draethu ac amddiffyn eu golygiadau hyd byth y gallont. Yr unig ryddid ydym ni fel golygydd yn hawlio yw gwneuthur y sylwadau a ymgynygant i ni ar eu hysgrifau.—GOL.]

TWYLL CYTHREULIG.

"Bernwch farn gywir."—ZECHARIAH.

At y Golygydd.

Anwyl Syr,

Nis gwn a oes ryw ysbryd dadleugar mwy nag arferol wedi fy meddianu ai nid oes; ond gwn hyn, fod ryw ysfa ysgrifenu—y clefyd hwnw, fe allai, a adnabyddir y'mhlith y meddygon a rhai dysgedigion craill, fel y *cacoethes scribendi*—wedi gafaelu ynof yn y cyfryw fodd fel nad allaf adael yr ysgrifell yn llonydd. Cyfrifa hyny fe allai am yr amhwyllidra, os oes amhwyllidra yn bod, a chyfrifa hyny hefyd am fy mod, os ydwyf, wedi defnyddio "yn fy ffrwst" ymadroddion mwy caled nag yr oedd yr achlysur yn gofyn. Cofier, fodd bynag, yr haeriad,* "fod [*pob un* o lyfrau] yr Hen Destament yn dyweyd fod Duw wedi gorchymyn i'r offeiriaid a'r prophwydi i gyfarwyddo'r bobl i *fenthyg* gan, neu *ladratta oddi ar*, neu *ladd* y cenhedloedd na dderbynient grefydd yr Israeliaid." Dyna *sweeping remark*, onide? Hawdd ei wireddu neu ei brofi yn anwiredd. Y mae yr haeriad yn ffaith, neu ynte nid yw. *Matter of fact ydyw*, ac nid *matter of opinion*. Nis gall fod dau opiniwn ar y mater. Pe mater o opiniwn neu o esboniad fuasai, buasai lle i wahaniaeth barn. Mater o opiniwn yw 'gwir esboniad' penod cyntaf Genesis; ond mater nas gall fod dadl yn ei gylch yw, y rhifedi o benodau yn llyfr Genesis, y rhifedi o adnodau yn y benod gyntaf o Genesis. Os oes yn llyfr Esther annogaeth yn cael ei roi, gan offeiriad neu brophwyd, i ladratta neu i ladd, noder yn union y benod a'r wers. Naill y mae yno, neu nid yw. Nis gall dadl fod yn ei gylch. Y mae yn bosibl fod gan yr offeiriaid a'r prophwydi bechodau

---

* YMOFYNYDD Hydref.

ddigon i gyfrif am danynt heb briodoli iddynt bechodau y maent yn ddieuog o honynt. Nid dieuog ger bron na Duw na dynion yw yr anudonwyr. Gweler llyfr Malachi.

Oddiwrth eich nodyn dan y penawd uchod yn yr YMOFYNYDD diweddaf (tud. 251), gellir meddwl y dylaswn i ac eraill deimlo yn ddiolchgar am gael llith B. yn argraphedig. Nis gallaf fi, fodd bynag, gydnabod diolchgarwch, lle nad wyf yn ei deimlo. Pe dywedaswn i fod y brenin Dafydd naw gwaith yn naw penod Amos yn annog yr Israeliaid i *ladratta* ac i *ladd* y cenhedloedd; lled brin y buasai Mr. Gol. yn *justified* i roddi cyhoeddiad i'r fath haeriad disail, er mwyn rhoddi cyfleusdra i mi ac eraill i ddangos nad oes dim son am y fath beth yn un o bennodau Amos* Ond y mae yn debyg fod "*y fath* haeriadau disail yn cael eu hadrodd yn awr gan rhai yn nes atom na Birkenhead. Gobeithio nad oes, ddim yn aml. Ond ni wna dau ddu ddim gwyn. Ond y'mha le y gwneir y fath haeriadau, a chan bwy? Dyma gyhuddiad pwysig, ac y mae yn wir, neu nid yw. Gall haeriad fod yn ddisail, heb fod *fel yr uchod.* Gall fod yn unig y drãethiad o opiniwn, a gall dau ddyn yn onest ddal dau opiniwn gwahanol. Ond y'mha le, a chan bwy y gwneir haeriadau disail, *fel yr uchod?*† Mae'n bosibl fod dynion i'w cael nad yw waeth ganddynt beth a ddywedant na pheth a wnant. Ond ai doeth i Olygydd cyhoeddiad *respectable* fel yr YMOFYNYDD *to pander to their depraved tastes* trwy roddi cyhoeddusrwydd i ffrwyth eu calonau llygredig? Gwell i mi aros bellach, Mr. Golygydd, rhag i chwi gael lle cyfiawn i gasglu fy mod, yn unol ag athroniaeth y Pregethwr (x. 2), a'm calon ar y llaw aswy. PHILALETHES.

O.Y.—Yn y llinell olaf ond un yn fy llith diweddaf (tud. 251) darllener "gonestrwydd *yn* llith, &c."

CYFARFOD CWARTEROL YR ONENFAWR.

Mr. Golygydd,

Wrth ddarllen yn yr YMOFYNYDD diweddaf hanes y Cyfarfod Cwarterol a gynhaliwyd yn yr Onenfawr, ni allaswn lai na

---

* Nis gallwn ganiatau fod eich eglurhad yn gyferbyniol. Nid oes yn Amos un awgrymiad o'r fath beth, ond y mae rhyw rith o sail, yn ymddibynu ar gamgyfieithad, i Moses annog yr Israeliaid i ysbeilio yr Aiphtiaid. Yn sicr mae "llith B." yn rhoddi cyfleusdra i Philalethes i ddangos fod y fath dyb yn hollol ddisail.—GOL.

† Yn wir, mae gwaith Philalethes yn dyrnodio mor galed yn ein cymhell i sylwi fod yr athrawiaeth am weithredoedd nerthol Crist a'i adgyfodiad o feirw, sef mai ffugchwedlau *(myths)* ydynt, neu, mewn geiriau eraill, mai celwydd ydynt, yn cin barn ni yn addysgiaeth mor ddisail ag yw dyweyd am Moses a'r prophwydi Iuddewig, eu bod yn rhoddi annogaeth i dwyll ac anonestrwydd; ac yn anghydmarol ynte yn fwy niweidiol i ffydd dynion yn ngwirionedd y pedair Efengyl nac yw haeriad B., i wirionedd Iuddewaeth. A barnu wrth sel Philalethes dros Iuddewaeth, ni a ddysgwyliwn ei weled yn d'od allan i amddiffyn Cristionogaeth rhag y fath ymosodiadau ag ydynt wedi siglo ffydd amryw yn barod yn ei gwirionedd. Ofer yw gofyn pwy ydynt, a pha le y maent? B'le nad ydynt?—GOL.

sylwi ar y gwahaniaeth rhyngom ni yn Nghymru yn cynal ein cyfarfodydd a'n brodyr y Saeson.

Yr wyf yn darllen yr *Unitarian Herald* yn wythnosol, ac wrth weled yr ymdrech sydd yn cael ei ddangos gan ein brodyr yn Lloegr i ledaenu yr egwyddorion a broffesant, yr wyf yn teimlo yn ofidus fod cymmaint o gyfleusderau yn cael eu hesgeuluso gyda ni yn Nghymru heb un cynyg yn cael ei wneyd tuag at ddyfeisio rhyw gynllun er lledaenu ein syniadau.

Yn wir, pan ddaethum at gynygiad y Parch. R. J. Jones "gyda golwg i wneyd rhyw gyfnewidiad yn y dull o gario y'mlaen y cyfarfodydd hyn," meddyliais fod cam yn yr iawn gyfeiriad yn cael ei wneyd o'r diwedd. Ond och ! beth oedd y canlyniad ? Ni phenderfynwyd dim !

Mae'r cwestiwn wedi ymgynyg i mi lawer gwaith, "beth all fod dyben y cyfarfoddd hyn yn bresenol?" ac nid wyf hyd yn hyn wedi disgyn ar esboniad boddhaol.

Gwn fod digon o gyfleusderau yn ymgynyg y dyddiau hyn i ni gael clywed ein gweinidogion yn pregethu, a gwn hefyd fod y wasg yn ddigon rhad a phoblogaidd fel y gellir trafod y *pwnc* a fynir i'r man eithaf, a phaham, ynte, y gwastreffir amser i siarad pethau ag y gellir gyda llawer mwy o briodoldeb eu trafod yn nhudalenau yr YMOFYNYDD pan y mae cwestiynau sydd o gymmaint pwys i ni fel enwad (megys diffyg gweinidogion a llawer eraill) yn cael eu gadael o'r neilldu.

Y mae'n rhaid cael *Reform* yn ein plith, a chan obeithio na fydd i Mr. Jones adael ei gynygiad fyned i'r llawr, ond y bydd iddo eto yn nghyfarfod Aberdar ddyfod ag ef tan sylw, ac y caiff well derbyniad.

Awgrymwn fod Mr. Jones i osod math o gynllun o flaen y cyfarfod, ac y bydd cyfleusdra i bawb siarad arno.

Yr eiddoch,

L.

HEN LYTHYRAU O GYMRU.*

LLYTHYR VII.

[At Mary Powell, Pencader, America.]

Bargod, Meh. 10, 1723.

Anwyl Chwaer:—Yr oedd yn dda digynyg genyf gael eich llythyr, yr hwn a dderbyniais yr wythnos ddiweddaf; ac yr oedd yn dda gan bawb o honom. Yr oeddem yn teimlo yn llawen i glywed fod Thomas, a chwithau, a'r tri phlentyn yn cael iechyd da, ac yn dyfod y'mlaen yn y byd, ac wedi gwerthu yr hen dyddyn, a phrynu un arall cymmaint arall o faint. Yr ydym ninau oll yn lled dda ar hyn o bryd. Bu nhad yn eiddil yn y gauaf, ond y mae gryn lawer yn well yn awr. Cafodd ci gnoi yr Hydref diweddaf gan ryw gi, ac yr oeddym yn ofni taw ci cynddeiriog ydoedd. Bu yn cymeryd peth o'r gareg sydd y'mhlwyf Llanarth at wella cnoad ci cynddeiriog. Y mae'r gareg hono yn parhau yr un faint o hyd, er cymmaint sydd yn cymeryd peth o honi, ac nid oes hanes fod neb erioed wedi marw o'r gynddaredd ar ol cymeryd peth o'r gareg, os cymerent o honi cyn pen tri

---

**Allan o "Faner America," Medi* 14, 1870.

diwrnod ar ol cael eu cnoi. Cymerodd nhad beth o honi tranoeth, ac y mae wedi dianc heb y gynddaredd hyd yn hyn, a chan fod naw mis wedi myned heibio er pan cnowyd ef, yr wyf yn meddwl y byd iddo ddianc bellach.

Gan fy mod wedi dechreu ysgrifenu am gŵn, adroddaf hanes arall wrthych yn dal cyssylltiad â chi, yr hon a gymerodd le yn yr ardal hon yn ddiweddar. Yr oedd Dafydd Pantybrwyn wedi bod yn ffair Capelcynon yn ddiweddar, ac wedi gwerthu tair anner ddwyflwydd, a dau fustach teirblwydd yno. Gorfu iddo aros yno yn lled hwyr cyn cael ei dalu. Yr oedd yn nos arno yn dyfod adref. Tua milltir oddiwrth y ty, pwy ddaeth i'w gwrdd, ond hen gi mawr sydd ganddynt o'r enw Capten, ac yr oedd yn ymddangos yn falch anghyffredin i weled ei feistr. Pan oedd tua haner milltir oddiwrth y ty, ar ben y rhiw dywyll yco, dyna ddyn yn neidio o ochr y clawdd â rhyw beth dros ei wyneb, a ffon fawr yn ei law, ac yn dyweyd mewn llais garw, am iddo roddi ei arian i fyny, neu y buasai yn ei ladd yn gelain yn y fan. Gyda hyny yr oedd Capten yn glos at glun ei feistr, ac yn gwasgu yn ei herbyn. "Hys, Capten," ebe Dafydd, a gyda hyny yr oedd y ci yn ymafael â'r dyn, ac wedi ei dynu yn lloro i'r llawr. Yr oedd ar Dafydd ofn fod yno ragor o gwmni, a rhedodd adref mor gyflym ag y gallai. Daeth y ci ar ei ol heb fod yn hir â llawer o waed arno. Diamheu mai rhyw un o gerllaw ydoedd, yr hwn oedd yn gwybod fod Dafydd wedi gwerthu y da. Credu y mae ef wrth ei lais a'i faint taw Evan Blaencwm ydoedd; ac fe fu Evan yn cadw y gwely am ddiwrnodau ar ol hyny, gan gymeryd arno ei fod wedi meddwi, a chwympo dros ryw graig, a dolurio ei hunan wrth dd'od adref o'r ffair. Ond yr oedd rhai wedi ei weled yn dyfod adref o'r ffair heb fod yn feddw, a chred y gymydogaeth yw mai dannedd ci Pantybrwyn a'i doluriodd.

Cymerodd tro rhyfedd le yn Cawres, gerllaw Llechryd, tua diwedd y gauaf diweddaf. Yr oedd y forwyn wedi myned i'r beudy un noswaith i roi gwellt i'r da. Yn ol taflu peth o flaen yr hen fuwch, dywedodd wrthi, "Cwyd, yr hen lorpen." "Na, na," ebe'r fuwch, "ac fe fydd llawer o honoch chwithau yn ffaelu codi cyn pen blwyddyn." Rhedodd y forwyn i'r ty mewn dychryn i alw y bobl, ond pan aethant i maes, yr oedd y fuwch wedi codi ac yn bwyta mor dawel a phe na buasai dim byd wedi dygwydd. Cafodd y ferch gymmaint o fraw nes iddi lewygu amryw droion yn ystod y noswaith hyny, a hi a aeth at grefydd yn Llechryd ar ol hyny, ac amryw o'r teulu a'r cymydogion gyda hi.

Yr ydys wedi gweled bwci ar y groesffordd tu yma i Llandyssul amryw weithiau yn ddiweddar. Y mae rhai wedi gweled rhyw beth tebyg i ddyn heb un pen yno; ac craill wedi gweled rhyw beth tebyg i ebol bach yn dyfod bron hyd atynt, ac yn diflanu. Yr oedd Griffith yr Alltgoch yn dyfod adref o garu y ffordd hyny yn ddiweddar. Yr oedd ei gariad wedi pallu iddo, ac yr oedd yntau wedi myned yn grac echrydus, ac yn meddwl ynddo ei hunan pa ffordd i ddial arni, pan welodd ryw un yn dyfod ato, â'i ben mor uchel a'r drain oedd yn tyfu ar ben y cloddiau. "Holo," meddai Griffith, "pwy sydd yna?" Nid oedd neb yn ateb, ond yr oedd y peth yn parhau i ddyfod yn nes ato. Yr oedd Griffith yn lled galonog, yn gymmaint a'i fod yn grac, a dyna fe yn gwaeddu yn ffyrnig, "Pwy wyt ti?" Ar hyny fe glywai ysgrech oerllyd, fel pe buasai mil o gathod yn cyduno i roi un ysgrech fawr, a'r bwci yn disgyn yn grug ar y ffordd, ac yn d'od ato fel ci mawr. Ni bu Griffith fawr o amser cyn gwthio ei hunan trwy y drain ar ben y clawdd, ac adref ag ef fel ysgyfarnog o flaen milgi, ac y mae yn dyweyd fod rhyw beth yn rhedeg wrth ei sodlau, nes oedd ym mron bod yn y ty. Yr oedd wedi rhwygo ei ddillad wrth fyned trwy y drain a'r dyrysni, nes oeddynt yn rhy ddrwg i'w gwisgo am fwbach y brain.

Dywedais wrthych yn y llythyr o'r blaen fod geiriau croesion wedi cymeryd lle rhwng Shaci Penyrallt a John Blaencwm mewn cwrw bach. Ym

mhen dau neu dri mis ar ol hyny fe rowd Penyrallt ar dân. Yr oedd yn noswaith lled wyntog, ac fe rowd tân mewn ty lloi yr ochr nesaf i'r gwynt i'r ystabl, y beudy, yr ysgubor, a'r ty byw; ac mewn das ceirch yr ochr nesaf i'r gwynt i'r ydlan; a buasai yr holl deiau, a'r llafur, a'r creaduriaid, a'r dynion yn debyg o gael eu llosgi i gyd, oni buasai i gariad y forwyn ddygwydd bod gyda hi y noswaith hyny. Gwelsant y goleuni yn tywynu trwy y ffenestr; galwyd y teulu o'u gwelyau; galwyd y cymydogion y'nghyd, a llwyddwyd i ddiffodd y tân, heb iddo wneyd llawer o niwed. Y mae pawb yn credu yn gadarn mai pobl Blaenycwm gynneuodd y tân i gael llosgi Shaci. Yr oedd hwnw yn cysgu ar daflod y 'stabl, yn y ty nesaf i'r ty lloi lle yr oedd y tân, a buasai wedi cael ei losgi yn ulw mewn ychydig fynydau, oni buasai i drugaredd fawr y nefoedd ragflaenu y peth. Eto y mae pawb ag ofn dyweyd dim am deulu Blaenycwm, er eu bod yn credu mai nhwy wnaeth y peth, oblegid eu bod yn deulu mor fileinig; ond fe fyddai yn dda iawn gan bawb eu gweled yn ymadael o'r gymydogaeth hon i ryw le digon pell na ddeuent byth yn ol.

Y mae wedi bod yn ddadl frwd rhwng Jenkin Jones, sydd yn ysgol Caerfyrddin, a Mr. Lewis, ein gweinidog ni. Yr wyf fi yn meddwl mai Mr. Lewis sydd yn cadw agosaf at y Beibl, ac y mae nhad, yr hwn sydd yn cael ei adael yn un o'r dynion callaf yn Pantycreuddyn, yn dyweyd fod golygiadau Jenkin Jones yn rhai peryglus, ac yn sicr o arwain i Sosiniaeth; ac y mae yn dyweyd os bydd iddo enill tir a chael canlynwyr yn y gymydogaeth hon, bydd hyny yn niwed anghyffredin iddi, ac yn sicr o ddwyn cyfeiliornad, anfoesoldeb, a Sosiniaeth yn llifeiriant dros y lle. Y mae yn ddrwg genyf ddyweyd fod amryw yn ochri gyda Jenkin Jones, yn enwedig o bobl ifainc mwyaf dibris ac anystyriol yr ardal. Yr oedd Twm Penddol yn dyweyd yr wythnos ddiweddaf, "D——l a nghoto i, os nad Jenkin Jones yw y pregethwr goreu yn y wlad. Y mae ef yn foddlon i bawb gael myned i'r nefoedd, nid fel Lewis, am ei chadw iddo ei hunan a'i etholedigion." Y mae Jenkin Jones yn caru etifeddes Pantydefaid, ac y mae tylwyth a chyfeillion hono yn frwd iawn drosto; ond y mae holl dylwythau lluosog a pharchus y Lewisiaid dros Mr. Lewis; ac y mae y rhan oreu o'r Eglwys drosto. Cynhelir cyrddau da iawn yma o hyd, a dywedir fod yma gystal canu ag sydd yn y tair sir.

Y mae Evan Bwlchgwyn wedi bod yn cynyg yn daer am fy nghwmni amryw weithiau yn ddiweddar, ond yr wyf wedi gwrthod bob tro. Yr wyf wedi cael cynyg ar rai bechgyn eraill ond nid oes un o honynt wrth fy modd, nac yn cael eu hystyried genyf yn deilwng o'm cwmniaeth. Y mae Wil Rees, Penrhiw, yn y gymydogaeth, ac yn treulio llawer o'i amser i fesur a phrisio tiroedd dros y boneddigion; casglu rhenti, a threthi, a rhyw orchwylion felly. Y mae son ar led ei fod yn cadw cwmni i ferch Foelhedog, ond yr wyf yn methu dyfalu beth mae ef yn weled ar hono. Gwir fod ganddi ddeg punt ar hugain o waddol, ond hen sopen lledchwith ydyw. Ond o ran hyny nid yw yntau yn llawer gwell, ac felly maent yn ateb eu gilydd yn lled lew. Y mae ef yn ddywedwst iawn pan fyddo efe yn agos i fi, ac nid wyf finau yn gwneyd mwy o sylw o hono yntau na phe byddai yn bost clwyd.

O, ie, y mae mab gan Siencyn a'i wraig. Gwelais blant o lanach, ac eto y mae rhyw beth yn bert digynyg ynddo. Y mae ei lygaid mor dduon a'r frân, ac mae yn sylwi yn rhyfeddol o blentyn tri mis oed. Wil wyf yn credu y bydd ef byw yn hir, oblegid mae mor henaidd yn ei ffordd. Yr oedd Mrs. Lewis, Dinas Cerdyn, yn dyweyd yn ddiweddar, "Un o blant bach Iesu Grist yw ef, ac fe fydd yn y nefoedd yn fuan." Morgan yw ei enw, ac y mae ei fam yn ddwl glân yn ei gylch. Yr wyf fi wedi dyweyd wrthi droion am beidio rhoi gormod o'i meddwl arno. Yr wyf fi yn synn llawer pam mae menywod mor ffol a rhoi cymmaint o'u meddwl ar blant bach nad yw yn gallu siarad gair â hwy. Ond y maent yn dyweyd wrthyf,

"Yr wyt heb dd'od i'r profiad eto, Anna." Y mae babi Siencyn wedi cael deg o'r gwnau pertaf a welsoch erioed gan wragedd y gymydogaeth, ond rhaid i mi roi fyny am fod y papyr yn llawn. Anfonwch yn ol yn fuan.

Ydwyf, eich Chwaer,

ANNA BEYNON.

Adolygiad y Wasg.

DR. CHANNING'S WORKS. *A new and a complete edition in one volume, published by the Unitarian Association. 1870.*

DR. PRIESTLEY'S HISTORY OF THE CORRUPTIONS OF CHRISTIANITY, *published by the Unitarian Association. 1871.*

THE BIBLE AND POPULAR THEOLOGY, *by Dr. Vance Smith, published by the Unitarian Association. 1871.*

THE APOSTOLIC AND PRIMITIVE CHURCH WAS UNITARIAN *(extracts), by Dr. Priestley, published by the Unitarian Association. 1871.*

Mae gan lawer ddiolch i'r *Association* am gyhoeddi argraffiad newydd o'r llyfrau godidog hyn, ac am bris isel. Ni allasai yr *Association* gyhoeddi llyfrau mwy pwrpasol yn yr amser hwn. Er fod Priestley a Channing yn annghyduno mewn rhai pethau, y maent yn un yn eu barn am yr Iesu fel cenhadwr dwyfol. Maent cill dau o'r *Evidence School*, hyny yw, maent yn derbyn Crist'nogaeth fel crefydd hanesiol. Mewn geiriau eraill, maent yn credu fod yr hanes am yr Iesu yn y pedair Efengyl ar y cyfan yn wir. Nid ydynt yn derbyn yn unig yr hyn a draethir am dano fel dysgawdwr moesol ac yn gwrthod pob peth arall yn yr hanes fel ffugchwedlau ofergoelus, a thrwy hyny yn ei osod yn yr un ranc ag athronwyr moesol y byd. Maent yn credu iddo wneuthur gweithredoedd nerthol, ac mai gwir yw'r hanes sydd yn dyweyd ei fod yn apelio atynt fel prawf o ddwyfoldeb ei anfoniad (Ioan xiv. 11). Yn fyr, Crist y Testament Newydd yw y Crist sy gan Priestley a Channing i gynyg i ddynion, ac nid rhyw Grist o'u dychymyg eu hunain.

Oddeutu deng mlynedd ar hugain yn ol yr oedd Dr. Channing mewn cymeradwyaeth fawr gyda'r Undodiaid, ond yn fuan wedi hyny daeth golygiadau theistaidd Strauss a Parker i sylw, a chawsant dderbyniad tra helaeth, yn enwedig gan dduwinyddion ieuainc y rhai ni allasent fod wedi cael amser i dalu sylw priodol i dystiolaethau Crist'nogaeth. Y pryd hwnw y dechreuwyd son am yr *Old School*, a'r *New* neu'r *Advanced School* yn ein plith. Yn y cyntaf y rhestrid pawb oeddynt yn Grist'nogion ar yr un tir â Newton, Locke, Lardner, Priestley, Belsham, Channing. Yn y *New School* yr oedd canlynwyr Theodore Parker, yr hwn a wrthoda bob peth sydd yn oruwch-naturiol yn y Testament newydd, fel chwedlau a ddyfeisiwyd gan ryw rai. Wrth gwrs mae yn gwrthod yr adgyfodiad hefyd fel chwedl ddisail, oblegid dyma y wyrth fwyaf, Gyda golwg ar dystiolaeth penaf crefydd, y goleuni mewnol sydd mewn dyn yw y prif faen-prawf.. *Absolute religion* yw y peth mawr yn ngolwg Mr. Parker, ac y mae yn destyn un o'i lyfrau, yr hwn sydd, wrth gwrs, yn awdurdod gan ei ganlynwyr, er y gellid dangos yn rhwydd fod yr awdwr yn camddarlunio syniadau yr *Old School* gyda

golwg ar ddybenion y gwyrthiau. I fod yn fyr, y canlyniad fu i waith Channing fyned am flynyddau i'r cysgod. Cymmaint oedd rhedeg i lawr y gwyrthiau, ac mor hwylus yr oedd y pethau yn myned yn y blaen, nes y byddai rhai o'r *new lights* wedi myned i siarad yn hytrach yn ddirmygus am yr hen Undodiaid, fel rhai yn gwneuthur dim cynnydd, os nid yn rhwystro blaenrediad gwybodaeth. Yn wir, nid oeddem heb le i feddwl fod rhai o honynt hwythau hefyd yn y diwedd yn dechreu petruso y'nghylch gwyrthiau Crist, a phwy ryfedd? Pan fyddo haint yn y gwersyll, y rhyfeddod yw fod neb yn dianc.

Ond yn awr mae rhyw arwyddion, os nad ydym yn camsynied, fod y corph Undodaidd yn dechreu gwella o'r clefyd meddyliol hwnw, ac yn dychwelyd i'w bwyll cynefinol. Mae yn galw am eu hen gyfeillion, Priestley a Channing, fel pe dywedai, "Yr wyf ar newynu. Mae eisiau arnaf gael ymborth a'm digona." O leiaf, dywedir fod yr *Association* wedi gwerthu o'r argraphiad newydd o Channing dair mil ar hugain, ac i fod yr "*History of Corruptions*," a'r "*Bible and Popular Theology*," yn cael derbyniad gwresog.

Priodas.

Beynon—Davies. Ar y 23ain Hydref, yn Swyddfa y Cofrestrydd, Merthyr Tydvil, Mr. Thomas Jonkyn Beynon (Cawr Ayron) à Meistresan Anne Davies, o'r White Horse Inn, Penydarren.

Bu Farw.

Mr. John James (Ioan Cerdin), Ysgolfeistr Tregroes, yn 29 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn un o dymer dawel a heddychol, a phob amser yn ymhyfrydu mewn gwneuthur daioni i'w gyd-ddynion yn ol ei allu. Rhoddwyd ei weddillion marwol i dawel orphwys yn hen fynwent Llandyssul. Ar yr achlysur gweinyddwyd gan Mr. Evans, gweinidog y lle. Nerth gaffo ei fam hiraethlon i gysuro ei hun yn y fath amgylchiad, "Canys yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymerodd ymaith: bendigedig fyddo enw yr Arglwydd." C. glan Cerdin.

Mrs. Elizabeth James, Blaencarreg, ger Llanbedr-pont-Styfyn, yn 89 oed. Yr oedd hi yn fwy adnabyddus i'r cyhoedd fel Mrs. James o'r Hafod, Llancrwys, a gweddw y Parchedig Joseph James, gynt ficer Llanycrwys, yr hwn a fu farw yn 1835, am hyny bu Mrs. James yn weddw 36 o flynyddau. Yr oedd yn hen wraig serchog, caredig o galon, ac elusengar i'r tlodion, a pherchid hi yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Dioddefodd gystudd caled am rai misoedd yn ei hamser olaf, ond bu yn hynod o amyneddgar dan ei dolur, yr hwn a ddechreuodd yn ei bron aswy, yn debyg i gornwyd. Ymledaenodd ei effaith trwy ei holl gyfansoddiad, a bu yn y diwedd yn achos o'i hangeu. Ymgasglodd torf luosog o gyfeillion a pherthynasau i hebrwng ei chorph i fynwent Cellan. Claddwyd hi yn medd ei mham, yr hon fu farw yr un oedran.

Mary Thomas, anwyl briod Thomas Thomas, Pensarnfynach, Medi 13, yn 51 oed. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol yn Capelygroes. Cyn cychwyn o'r ty, darllenoddd a gweddiodd y Parch. R. C. Jones, Cribin, a phregethodd y Parch. W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth Psalm cii. 11. Testyn o'i dewisiad ei hunan. Gweinyddwyd yn y Capel gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid. Yr oedd yr ymadawedig yn wael ei hiechyd er pan gafodd ei tharo gan y parlys rai blynyddau yn ol, Yr oedd yn hoff o brydyddiaeth ac yn ddarllenwraig graffus; yn wraig ofalus am ei chartref a'i phriod; yn wraig dduwiol, eirwir, onest, a hynod o garedig. Perchid hi gan bawb a'i hadwaenai. Bu yn aelod selog yn eglwys y Cribin am lawer o flynyddau, a theimlir hiraeth a cholled mawr ar ei hol. Nerth a gaffo ei

phriod a'i brawd i foddloni i ewyllys Duw, o herwydd yr Arglwydd a roddodd ac a gymerodd ymaith.

Esther Thomas, Gellinudd, Medi 24, yn 88 oed. Gweddw y diweddar Eynon Thomas ydoedd, yr hwn a fu am flynyddau lawer yn Drysorydd i gynulleidfa Gellionen. Bu yr ymadawedig fyw ar ol ei chydmar ryw faint yn rhagor na blwyddyn a saith nis. Yr oedd ef yn 93 oed pan y bu farw. Dydd Iau canlynol ymgynullodd tyrfa luosog o gyfeillion a pherthynasau'r teulu i'w hebrwng i gladd-le Gellionen, pryd y darllenodd a gweddiodd y Parch. P. Griffiths, Alltwen (A.), yn y capel, a phregethwyd gan weinidog y lle oddiar Ioan v. 14, 15. Bu yr ymadawedig yn aelod ffyddlon a sclog iawn yn y Gellionen am flynyddau meithion. Mynychai y cyfarfod yn rheolaidd, drwy bob tywydd, hyd oddeutu'r ddwy flynedd ddiweddaf o'i bywyd, pryd yr analluogwyd hi gan henaint. Ac nid yn unig yr oedd yn enwog am hyn, ond hefyd am ei rhinweddau da. Yr ydoedd erioed, yn ystod ei bywyd maith, wedi bod yn gymydoges yn ngwir ystyr y gair. Yr oedd gair da gan bawb yn yr ardal i "Modryb Esther," fel ei gelwid. Er ei bod wedi cyrhaedd oedran teg, ac yn ei hamser diweddaf yn bur analluog, eto nis gallasai ei hanwyl blant lai na bradychu teimladau hiraethlon ar ei hol wedi'r cyfan. Ond bydded iddynt ymgysuro yn ngobeithion yr Efengyl. Dydd a ddaw pan y caiff "pawb ac ydynt yn eu beddau glywed ei leferydd ef, a'r rhai a wnaethant dda a ddeuant allan i adgyfodiad bywyd, a'r rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn." A bydded iddynt hwythau yn ystod eu taith efelychu cymeriad dysglaer eu hanwyl fam, yr hon, er gwedi marw, sydd yn llefaru eto wrthynt hwy a chylch ei hadnabyddiaeth. Heddwch i'w llwch hyd y dydd olaf. J. E.

Margaret Thomas, Tachwedd 4, yn 20 oed, yn dra anysgwyliadwy. Merch Mr. William Thomas, Maensaer, Pantyronen, ger Llanwnen, Ceredigion, ydoedd. Yr oedd yn eneth o gymeriad da yn ei chymydogaeth, ac yn aelod o'r gynulleidfa Undodaidd yn Capelygroes. Claddwyd hi y Mawrth canlynol yn nghladdfa'r capel dywededig, a gweinyddodd y Parch. T. Thomas, y gweinidog, ar yr achlysur.

William Morris. Cwmaman, Tachwedd 14, yn 60 oed. Mab William Morris, gynt o'r Trap, ger Llandilo, ydoedd. Daeth i'w ddiwedd trwy ddamwain, a hyny mewn modd distadl. Ei waith yn awr ys blynyddau oedd "Tippo *trams*" mewn gwaith glo cyfagos. Wrth uniawnu y *tram* wedi tippo y llwyth darfu i'w chornel rwbio (nid yn galed ychwaith) yn erbyn ceudod y bol (*abdomen*). ac achosi rhwyg, yn ddigon tebyg, yn y coluddyn mawr (*colon*). Cerddodd adref (dros gwarter milldir) er mewn poen dirfawr, a bu fyw o brydnawn dydd Mawrth hyd bump o'r gloch boreu dydd Iau. Mor ansertenol a brau yw bywyd! Yr oedd yn cydaddoli a'i frodyr Undodaidd yn yr Onenfawr ar Sul y pumed o'r mis, ac ddim yn meddwl, mwy nac eraill, mai dyma y tro diweddaf. Anfynych iawn y collai ei gwrdd, er fod ganddo fwy na deuddeg milldir i gerdded yn ol ac y'mlaen. Yn hyn yr oedd ei sel yn esampl i lawer o Undodiaid. Fel ei dad o'i flaen, yr oedd William Morris yn ddyn cydwybodol, geirwir, a thawel—parod yn wastad fel cymydog i wneuthur cymwynas. Yr oedd hefyd wedi gwneutliur mwy o gynydd mewn gwybodaethau na llawer o weithwyr. Gwnelai y goreu o'i fanteision a'i amser. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw ac un ferch. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol yn Bethel, capel yr Annibynwyr, i'r hwn le yr hebryngwyd ef gan dyrfa luosog, y rhai, un ac oll, a roddent air da iddo. Cyn cychwyn o'r darllenwyd, gweddiwyd, ac anerchwyd y gwyddfodolion ar yr angylchiad galarus gan y Parch. D. L. Evans, o Gaerfyrddin, a phregethwyd yn y capel gan y Parch. Mr. Davies, y gweinidog. Ffarwel, anwyl frawd, dros ychydig bach; ni gawn gyfarfod eto, ac mewn perffeithiach bywyd.

Mr. John Jones, Meinigwynionbach, Llandyssul, Ceredigion, Tachwedd 21, yn 68 oed. Yr oedd yn ddyn dinwed a heddychol, ac iddo gyfeillion nid yn unig yn ei gymydogaeth, ond hefyd yn y plwyoedd amgylchynol. Yr oedd ei angladd, y dydd wener canlynol yn un o'r mwyaf a welwyd yn yr ardal erioed. Claddwyd ef yn Pantydefaid, a chyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan weinidog y lle, y Parch. T. Thomas. Ymgysured ei weddw a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ar bwys yr addewid y cant eto ail-gyfarfod yn y nef.

GWELLIANT GWALLAU.—Yn tud. 247 darllener BIBLIOLATRY.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, LLYFRWERTHWYR, CAERFYRDDIN.

YR

YMOFYNYDD:

Cylchgrawn Misol Undodiaid Cymru.

DAN OLYGIAETH

D. L. EVANS,

Hebrew and Mathematical Tutor

YN

ATHROFA HENADUROL, CAERFYRDDIN.

1871.

"Profwch bob beth: deliwch yr hyn sydd dda."

CAERFYRDDIN:
ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, HEOL-Y-BRENIN.

Margaret Thomas Capel Dewi Llandyssul

Margaret Thomas Capel Dewi Shop Llandyssul,

1871

Profwch bob peth : Deliwch yr hyn sydd da

Paul apostol

Mavr y

Cenedlaed

DANGOSEG.

IONAWR.

Y Flwyddyn Ddiweddaf, 1. Hanes Hynod yr Amryfusedd wnawn o barthed i Dduw, Dyn, a Satan, 3. Paham yr wyt yn Gristion? 8. Esboniadau, 10. "Yr Oes Oleu Hon," 11. Gair at y Ffermwyr, 16. Y Cyfarfodydd Llenyddol, a'r llês sydd yn deilliaw oddi wrthynt, 17. Garddwriaeth y Bwthyn, 18. Y Glowyr a'r Mwynwyr; eu Hiawnderau Gwladol, 20. Eisiau Swydd Esmwyth, 22. Y Dyn Haelionus; Breuddwyd Gwr Goludog; neu, Pawb yn Gydradd yn y Bedd; 23. Y Rhyfel, 24.

CHWEFROR.

Inffidel, 25. Pregeth, 29. Ysbryd cas y Sectau a'r Eglwys Sefydledig, 33. Psalm i'r Haul, 34. Garddwriaeth y Bwthyn, 36. Huriau, 38. Tystiolaeth Gweinidog Undodaidd, 40. Cwrdd Cwarterol y Nadolig, 41. Y Rhyfel, 42. Y Flwyddyn fu farw, 43. Telyn Dewi, 44. Manion. 45. Marwolaethau, 46.

MAWRTH.

Oddeutu Dau Can' Mlynedd yn ol, 49. Pregeth, 52. Esboniadau, 57. Gohebiaeth, 58. Gofyniadau ac Atebion, 60. Aniandraeth, 62. Seryddiaeth, 63. Garddwriaeth y Bwthyn, 65. Adolygiad y Wasg, 67. Nodiadau Bywgraphol; Hysbysiadau; 68. Y Rhyfel; Y Senedd; 70. Priodwyd; Marwolaethau, 72.

EBRILL.

"Y Tadau, pa le maent hwy?" 73. Gweddi, 76. A ydyw Duw mor dda â Dyn? 78. Ffydd; Cateeism byr; 79. Esboniadau, 81. Gohebiaeth, 83. Garddwriaeth y Bwthyn, 89. Barddoniaeth, 90. Y Senedd, 92. Ysgol Sabbothol Pantydefaid; Marwolaethau, 95.

MAI.

Adroddiad o Egwyddorion Undodaidd, 79. Duwinyddiaeth, 100. Gohebiaeth, 103. Esboniadau, 104. I'r Gofid, 106. Aniandraeth, 107. Gofyniadau ac Atebion, 109. Garddwriaeth y Bwthyn, 110. Cofnodion Bywgraphol, 111. Hanesion, 114. Beirniadaeth, 115. Ein Heglwysi, 116. Y Senedd, 117. Marwolaethau, 120.

MEHEFIN.

Trefn Enwadol, 121. Duwinyddiaeth, 123. Mr. Voysey yn y Masonic Hall, 128. Esboniadau, 131. Hanes Carwriaeth, Priodas, a Marwolaeth y Ceiliog Du, 133. Gofyniadau ac Atebion, 135. Cofnodion Bywgraphol, 137. Hen Lythyrau o Gymru; Llythyr i., 139. Galargan y Fwyalchen, 141. Y Senedd, 142. Marwolaethau, 143.

GORPHENAF.

Crefydd Ddatguddiedig a Chrefydd Natur, 145. Athrawiaeth yr Iawn, 149. Esboniadau: Luc xiv. 26, ac Esaiah ix. 6; 151. Dafydd Jenkin Rees, o "*Telyn Dewi*"; 155. Pum' Gofyniad i Feddylwyr

Diragfarn, 155. Llythyr J. D., cofiadio Undodiaeth; 156. Hen Lythyrau o Gymru: Llythyr ii., 157. Dynes ddyblyg; Dr. Döllinger; Mr. Sen.; Ysgrif y Prif Ysgolion; Y Gymdeithas Broselytaidd Iuddewig; 160. Y Wesleyaid; Ysgrif y Mynwentydd; Ffrainc; 161. Cyfarfod Llenyddol Rhydygwin, 162. Cyfarfod yn y Cribin; Darllen Pregethau; 163. Deigryn Hiraeth; Adolygiad y Wasg; 164. Gofyniadau ac Atebion, 165. Garddwriaeth y Bwthyn, 166. Y Senedd, 167, Marwolaethau, 168.

AWST.

Cynnydd Athrawiaethol ac Undodiaeth, 169. Pregeth ar ddarllen yr Ysgrythyrau, 172. Gohebiaeth, 180. Hen Lythyrau o Gymru: Llythyr iii., 183. Ein Heglwysi, 185. Prawf-holiad Athrofa Henadurol Caerfyrddin, 186. Atebion a Gofyniadau; Garddwriaeth y Bwthyn; 187. Y diweddar T. Hughes, Ysw., Neuaddfawr, 188. Y Gwanwyn yn gwenu; Mis Mai; 190. Cwmgwenlais; Hanes Cartrefol a Thramor; 191. Marwolaethau, 192.

MEDI.

Duw, Cariad yw, 193. Awgrymiadau i Bregethwyr Ieuainc ac i'n Heglwysi, 196. Addefiad Anghredadyn y'nghylch y Bibl, 199. Esboniadau; Ezec. xviii. 4; Dammeg y Mab Afradlon, Luc xv.; Esgyn i'r mynydd, Matt. v. 1; 199. Rhoddi Gofyniadau i'r Pregethwr, 202. Cri Carcharor dan Farn Marwolaeth, 203. Ach Ryfeddol y Forwyn Fair, 206. Dylai y Corph gael ei gadw yn lân, 207. Hen Lythyrau o Gymru: Llythyr iv., 209. Ein Heglwysi, 213. William Morgan, Yswain, 214. Atebion a Gofyniadau, 215. Marwolaethau, 216.

HYDREF.

Crefydd Natur a Chrefydd Datguddiad, 217. Rheswm yn Saïon, 221. Twyll Crefyddol, 223. Adolygiad y Wasg, 225. Awyr bur yn anhepgorol i Iechyd, 226. Garddwriaeth y Bwthyn, 228. Codi i Enwogrwydd (Prydyddiaeth), 229. Hen Lythyrau o Gymru; Llythyr v., 230. Offeiriad yn egwyddori Plant, 233. Ein Heglwysi, 234. Hanesion Crefyddol, 236. Hanesion Gwladol, 238. Marwolaethau, 240.

TACHWEDD.

Ystyr y gair Iawn neu Cymmod yn yr Ysgrythyrau, 241. Anfarwoldeb; Esboniadau; 244. Bibliolatry, neu Lyfr-addoliaeth, 247. Twyll Cythreulig; Y Drindod yn yr Athrawiaethau; 251. Ein Hysgolion Sul, 253. Hen Lythyrau o Gymru: Llythyr vi., 254. Ein Heglwysi, 257. Hanesion Eglwysig, 259. Gofyniadau, 261. Tân dychrynllyd yn Chicago, America, 262. Marwolaethau, 263.

RHAGFYR.

Dydd Genedigaeth Crist, 265. Heriad Iuddew, 272. Esboniad, 273. Bibliolatry, neu Lyfr-addoliaeth, 275. Twyll y Byd; Llythyr Philalethes; 280. Twyll Cythreulig, 281. Cyfarfod Cwarterol yr Onenfawr, 282. Hen Lythyrau o Gymru; Llythyr vii., 283. Adolygiad y Wasg, 286. Priodas; Marwolaethau; 287.